
















# Comisiynydd Plant Cymru
# Children's Commissioner for Wales

## Adroddiad a Chyfrifon 2001 - 2002

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Y Comisiynydd a'i Dîm



**Peter Clarke**
Comisiynydd Plant Cymru



**Sharon Clapton**
Cynorthwy-ydd Personol




**Maria Battle**
Is-Gomisiynydd (Cyfraith a Gweinyddiaeth)



**Charlotte Blair**
Rheolydd Cyllid a Gweinyddiaeth

## Cynorthwywyr Gweinyddol



**Michelle Holland**



**Carol Roberts**



**Jon Murphy**



**Manus Sheridan**



**Rhian Davies**
Is-Gomisiynydd (Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau)

## Tîm Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau



**Mair Jones**
Uwch Swyddog Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau



**Peter Hosking**
Uwch Swyddog Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau



**Lisa Turnbull**
Swyddog Ymchwil




**Sara Reid**
Is-Gomisiynydd (Cyfathrebu)

## Tîm Cyfathrebu



**Julie Griffiths**
Uwch Swyddog Cyfathrebu



**Elin Jones**
Swyddog Cyfathrebu




**Karen Burrows**
Swyddog Cyfathrebu

Comisiynydd Plant Cymru

# *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2001 - 2002*

## *Gair gan y Comisiynydd.....*



*Bu'n flwyddyn gyffrous a heriol a dweud y lleiaf. Roedd cymaint i'w wneud, a'r pethau pwysicaf oedd gwrando ar gymaint o bobl ifanc ag y bo modd, a siarad â hwy. Rwyf wedi teithio trwy Gymru benbaladr yn darganfod y pethau mae ein plant a'n pobl ifanc yn ymddiddori ynddynt neu yn ymboeni'n eu cylch – yn ceisio deall sut maent yn edrych ar y byd.*

*Mae llawer o'r hyn rwyf wedi ei glywed wedi fy nhristáu, yn enwedig y ffaith fod cyn lleied o bobl ifanc yn teimlo ein bod ni, fel oedolion, yn eu parchu. Mae fy ngwaith hefyd wedi canolbwyntio'n fanwl ar y ffyrdd y gall oedolion niweidio plant yn ddifrifol, naill ai'n fwriadol neu trwy ddiofalwch.*

*Ond mae llawer o bethau eraill wedi fy llawenhau, yn arbennig y ddawn greadigol a'r sgiliau a ddangosir gan bobl ifanc, a'u parodrwydd a'u gallu i drafod y materion sy'n effeithio arnynt.*

*Tra bo llawer o'r materion hyn yn gymhleth, ymddangosodd eraill yn weddol ddibwys ar y dechrau. Mae llawer o ddisgyblion ysgol yn sôn am gyflwr y toiledau, er enghraifft. Efallai fod hyn yn ymddangos yn fater ymarferol, ond teimla pobl ifanc bod y ffaith y caniateir i'r cyfleusterau fod o safon mor wael yn dangos diffyg parch.*

*Siarad â phlant yw'r rhan fwyaf pleserus o'r gwaith, rhan hanfodol os wyf i ennyn eu parch fel amddiffynnydd eu hawliau a'u lles. Rwyf wedi gwneud ymdrechion arbennig i siarad â'r rhai sy'n aml yn cael eu gadael allan, fel plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc anabl. Rwyf hefyd wedi treulio llawer o amser yn siarad â grwpiau sy'n gweithio â phobl ifanc, sydd â dylanwad mor gryf ar eu bywydau. Cafodd partneriaethau eu llunio, a chefais fy nharo gan y lefel uchel o ewyllys dda sy'n bodoli tuag at swydd y Comisiynydd, a thuag at ein nodau.*

*Nid yw llawer o bobl sy'n gweithio â phlant yn teimlo eu bod hwy'n cael llawer o barch ychwaith, ac un o'r materion mae'n rhaid inni ddelio ag ef yw penodi, hyfforddi a chadw staff. Mae morâl y staff yn isel mewn gormod o wasanaethau plant. Mae arnom angen timau staff hyderus a sefydlog os ydym am weld y gwelliant ym mywydau plant y mae ar gymaint ohonom ei eisiau.*

*Roedd sefydlu'r swyddfa ynddo'i hun yn her sylweddol, gyda'r holl systemau sydd angen eu rhoi ar waith. Gwnaeth penodi'r rhan fwyaf o dîm y staff yn gynnar eleni wahaniaeth mawr o ran beth y gallwn ei wneud.*

*Dim ond megis dechrau yr oeddem ar bethau yn y flwyddyn gyntaf, adeiladu dealltwriaeth a chydberthynas. Mae'n debyg na fyddaf fyth yn teimlo'n gwbl fodlon â'r cynnydd a wneir, ond credaf ein bod wedi gwneud dechreuad rhesymol tuag ar newid bywydau plant er gwell.*

**Peter Clarke**
Comisiynydd Plant Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 3 |
| Cyd-destun a Chefndir | 3 |
| Cyfrifoldeb a Phwerau | 3 |
| Eisiau gwybod mwy? | 4 |
| RHAN UN: Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol | 5 |
| Pwy ydym ni | 5 |
| Beth rydym yn ei wneud | 5 |
| Sut rydym yn gwneud hyn | 5 |
| Sut mae'n gweithio | 6 |
| Cefnogi plant a phobl ifanc: y ffeithiau a'r ffigyrau | 10 |
| RHAN DAU: Y ffordd ymlaen | 13 |
| RHAN TRI: Adolygiad y Comisiynydd Plant o Faterion berthnasol i hawliau a lles plant | 15 |
| Tlodi Plant | 15 |
| Parch | 16 |
| Cyfranogiad | 16 |
| Addysg | 18 |
| Hawliau Plant | 20 |
| RHAN PEDWAR: Comisiynydd Plant Cymru | 21 |
| Rhagair i'r Cyfrifon | 21 |
| Cyfrifon | 27 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 31 |
| ATODIAD UN: Ymweliadau, cyfarfodydd a chynadleddau | 36 |
| ATODIAD DAU: Archwiliad Clwych - Cylch Gorchwyl | 38 |




Tŷ Ystumllwynarth, Llys Siarter,
Phoenix Way, Llansamlet, Abertawe SA7 9FS
Ffôn: 01792 765600  Ffacs: 01792 765601
Ebost: post@complantcymru.org.uk
Gwefan: www.complantcymru.org.uk

Plas Penrhos, Oak Drive,
Bae Colwyn, Conwy LL29 7YW
Ffôn: 01492 523333  Ffacs: 01492 523336
Ebost: post@complantcymru.org.uk
Gwefan: www.complantcymru.org.uk


Lluniau gan blant a phobl ifanc
ymgeisiodd yn ein cystadleuaeth logo.


Sylwadau ar ein blaenoriaethau gan blant a phobl ifanc.



Mathew,
oed 6, Abertawe




Gabriella,
oed 11, Pencoed



Joseph,
oed 11, Flemingston




Kristian,
oed $10\frac{3}{4}$, Brynbuga

# Rhagarweiniad




## Cyd-destun a Chefndir

Achubodd Cymru y blaen ar weddill y Deyrnas Unedig pan benododd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gomisiynydd Plant . Yn dilyn ymgyrch unedig gan y rhai a oedd yn ymboeni ynghylch hawliau dynol plant am dros ddegawd neu fwy, yr argymhelliad cyntaf a wnaed yn adroddiad Sir Ronald Waterhouse, Ar Goll Mewn Gofal, ar gam-drin mewn cartrefi plant yng Ngogledd Cymru oedd sefydlu Comisiynydd Plant, a darparodd hyn fomentwm ychwanegol.

Roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i sefydlu'r swydd ac ymgynghorodd yn eang ar ei gynigion. Dewisodd gael Comisiynydd statudol, annibynnol gyda chyfrifoldeb eang, na fyddai eu swyddogaethau'n cael eu cyfyngu i'r maes gofal cymdeithasol.

Diwygiwyd Deddf Safonau Gofal 2000 i sefydlu'r swydd, ond cyfyngwyd hi i wasanaethau rheoledig. Penodwyd y Comisiynydd, gyda chysylltiad llawn â phobl ifanc, ym mis Rhagfyr 2000. Yn union ar ôl cyhoeddi'r penodiad, cyflwynodd llywodraeth y Deyrnas Unedig y Mesur Comisiynydd Plant Cymru er mwyn ehangu ei gyfrifoldebau. Derbyniodd y fenter gefnogaeth pob plaid a throwyd y mesur yn ddeddf ar Fai 11 2001.

## Cyfrifoldeb a Phwerau

Sefydlodd Deddf Comisiynydd Plant Cymru brif amcan y rôl ac ehangodd swyddogaeth y Comisiynydd trwy:

- roi pŵer i adolygu effaith polisïau, a darpariaeth gwasanaethau i blant
- ehangu cyfrifoldeb y Comisiynydd ymhell tu hwnt i'r gwasanaethau a ddarperid yn uniongyrchol ar gyfer plant, fel gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg, i gynnwys meysydd fel cludiant, yr amgylchedd, datblygiad economaidd ac amaeth.

Mae'r pwerau hefyd yn cynnwys polisïau ac ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ei hun.




Gall y Comisiynydd Plant ystyried, a chyflwyno sylwadau i'r Cynulliad ynglŷn ag unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau neu les plant yng Nghymru. Golyga hyn y gall ddelio â materion fel sefydliadau Tramgwyddwyr Ifanc a reolir gan y Swyddfa Gartref, y Llys Teuluol a budd-daliadau – materion nad ydynt o fewn cyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynlluniwyd pwerau'r Comisiynydd i fod yn ddigonol iddo weithredu fel amddiffynnydd gwybodus plant a'u hawliau. Maent yn cynnwys awdurdod i roi cyngor ac arweiniad i blant, a'r angen i ganfod barn plant a phobl ifanc.

Gall y Comisiynydd ymchwilio i achos plentyn neu blant arbennig os yw'n ymwneud â mater y gellir ei gymhwyso'n fwy cyffredinol i fywydau plant yng Nghymru a gall fynnu bod asiantaethau neu berson sy'n gweithredu ar eu rhan yn darparu gwybodaeth. Gall hefyd fynnu presenoldeb tystion a all roi tystiolaeth ar lw. Fel arfer bydd ymchwiliad o'r fath gan y Comisiynydd yn digwydd yn unig pan fo pob llwybr arall wedi ei ddihysbyddu.

Sefydlwyd y swydd gyda phwyslais cryf ar y pŵer i ddylanwadu, ac i helpu i newid y diwylliant mae plant yn tyfu ynddo yng Nghymru. Bydd y newid diwylliannol yma'n digwydd o fewn mudiadau, ac o fewn cymunedau lleol yn ogystal ag yng Nghymru fel cenedl. Fel gyda mentrau eraill, fel **Fframwaith ar gyfer Partneriaeth** Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac **Ymestyn Hawliau** a **Llais Ifanc/Young Voice**, dengys creu y swyddogaeth y pwyslais a roddir ar sefydlu dulliau i bobl ifanc gyfranogi'n ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Rhaid i'r Comisiynydd ddal sylw ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mhopeth a wna. Mae hawliau plant yn sylfaen i holl weithgareddau ei dîm, a'r brif ffordd y caiff yr hawliau hynny eu gwireddu yng Nghymru yw trwy gyfranogiad gweithredol. Bydd hyn yn awdurdodi pobl ifanc ac yn goleuo oedolion y mae eu gwaith a'u hagweddau yn effeithio ar bobl ifanc.


## Eisiau gwybod mwy?

- Gellir dod o hyd i Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru ar wefan HMSO yn: www.legislation.hmso.gov. uk/acts.htm
- Pasiodd y Cynulliad rheoliadau ym mis Gorffennaf 2001, ac maent ar wefan HMSO yn at www.wales-legislation.hmso.gov.uk
- Mae dogfen ymgynghorol y Cynulliad ar gynigion ar gyfer rheoliadau'r Comisiynydd yn rhoi manylion pellach am y cyfrifoldebau llawn a'r ystod pwerau.  Gellir ei chanfod ar wefan y Cynulliad yn: www.wales.gov.uk/subichildren.
- Am ragor o wybodaeth ar Gomisiynwyr Plant ac ombwdsmyn yn Ewrop chwiliwch www.ombudsnet.org.

Dylwn ni gael mwy o weithgareddau tu allan i'r ysgol i stopio fandaliaeth ac i arbed plant rhag diflasu.




Y cyhoeddiadau cyntaf, sy'n cynnwys taflen clir a chryno mewn chwech o ieithoedd Cymru



Owain,
oed 5, Y Trallwng



Lara,
oed 14, Abertawe



Megan,
oed 11, Sir Benfro



Natalie,
oed 9, Abertawe

# *RHAN UN: Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol*

## *Pwy ydym ni.....*

Mae tîm staff y Comisiynydd Plant bellach yn cynnwys 17 aelod o staff wedi eu lleoli mewn swyddfeydd yn Abertawe a Bae Colwyn. Am y rhan fwyaf o'r cyfnod yr ymdrinnir ag ef yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, nid oedd y tîm wedi eu penodi gan i ran fwyaf y staff ymuno yn y cyfnod Ionawr – Mawrth 2002. Bydd 22 aelod o staff yn y tîm llawn.


Ceir tri thîm gwahanol, gyda Chomisiynydd Cynorthwyol yn arwain pob un:

**Cyfreithiol a Gweinyddol** – yn darparu arbenigedd cyfreithiol a chefnogaeth ariannol a gweinyddol ar gyfer y corff.

**Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau** – yn dylanwadu ar ymarfer a pholisi a hyrwyddo gwell gwasanaethau ar gyfer plant.

**Cyfathrebu** – yn estyn allan at blant a phobl ifanc, gan eu cynnwys yn ein gwaith a chynyddu ymwybyddiaeth am y Comisiynydd Plant ac am hawliau plant.

Mae pob tîm yn cyfrannu sgiliau penodol ac yn cyflawni gwahanol weithgareddau ar ran y Comisiynydd. Cyflawnir gwaith yn gyffredinol ar sail prosiect traws-swyddogaethol sydd yn galluogi staff i gyfnerthu eu harbenigeddau presennol a datblygu meysydd arbenigedd newydd.




## *Beth rydym yn ei wneud.....*

Mae'r Comisiynydd Plant a'i dîm yn anelu at:

- amddiffyn a hybu hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru
- gwneud plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- sicrhau fod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o swyddogaeth a phwerau Comisiynydd Plant Cymru
- hybu cyfranogiad plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- gofyn am farn plant a phobl ifanc ar y gwaith y bydd y Comisiynydd yn ei wneud
- cynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol yng ngwaith y Comisiynydd
- gwneud ymdrechion arbennig i sicrhau fod lleisiau grwpiau plant sydd ar y cyrion yn cael eu clywed, ac y gweithredir ar eu barn
- adolygu a monitro trefniadau ar gyfer cwynion gan blant, ac ar gyfer trefniadau eiriolaeth a rhannu pryderon
- helpu i newid agweddau cyhoeddus tuag at blant yng Nghymru
- rheoli swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn effeithiol ac effeithlon




## *Sut rydym yn gwneud hyn.....*

## *Y gwerthoedd sy'n ein gyrru.....*

Mae nifer o werthoedd craidd yn sylfaen i waith y Comisiynydd:

- Mae buddiannau'r plentyn yn dod gyntaf bob amser
- Byddwn bob amser yn delio â phlant yn onest, ac yn cyfathrebu â hwy mewn ffyrdd sy'n gwella dealltwriaeth
- Barn plant a phobl ifanc yw'r arweiniad pwysicaf yn ein gwaith.
- Mae plant a'u barn bob amser i'w trin â pharch
- Dylai plant a phobl ifanc fwynhau eu hawliau cyflawn fel y'u cyflwynir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Dylai cyswllt â'n swyddfa arwain bob amser at blant a phobl ifanc yn teimlo'n fwy hyderus a'u bod yn cael eu deall yn well
- Mae gonestrwydd o ran bwriad a gweithredu yn arwain y cyfan a wnawn

## Yn siarad dros blant a phobl ifanc – achosion unigol a materion ehangach

Rhoddwyd llawer o ystyriaeth i rôl y Comisiynydd fel eiriolydd dros blant unigol a goleuwyd hyn gan brofiadau Ewropeaidd, lle'r oedd rhai ombwdsmyn wedi canfod fod eu gwaith wedi ei reoli'n llwyr gan hyn. Ond mae gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwir faterion sydd o bwys i blant unigol ac yn eu hwynebu yn elfen hanfodol o fedru adnabod pryderon a thueddiadau sy'n effeithio ar niferoedd mwy. Byddai hygrededd y Comisiynydd fel amddiffynnydd hawliau a lles plant yn cael ei danseilio'n derfynol yng ngolwg plant, pe na bai'n ymateb i'w cais am help. Mae'r cydbwysedd hwn yn hollbwysig.

Felly sefydlwyd y rôl yn y maes yma i ganiatáu i'r Comisiynydd gamu i mewn ar ran pobl ifanc, ond hefyd i sicrhau fod systemau effeithiol yn bodoli er mwyn iddynt fedru cael materion unigol wedi eu datrys ar lefel leol neu ar lefel gwasanaeth.

## Sut mae'n gweithio.....




### Achosion unigol

Caiff plentyn, neu ei gynrychiolydd, sy'n cysylltu â'r swyddfa am gymorth wrandawiad bob amser. Yna byddwn yn gofyn a ydynt wedi defnyddio unrhyw systemau sy'n bodoli eisoes. Os nad ydynt, byddwn yn eu helpu i ganfod y ffordd briodol, neu gael eiriolydd iddynt. Byddwn yn gofyn i'r person ifanc gadw mewn cysylltiad ac yn eu cefnogi wrth iddynt fynd trwy unrhyw drefn gwyno neu apêl. Gallwn hefyd gynnig arweiniad i eiriolwyr. Fel arfer byddwn yn cynghori y dylai'r plentyn neu'r eiriolydd ddweud wrth yr asiantaeth sy'n delio â'r mater bod y Comisiynydd Plant yn ymwybodol o'r achos, gan fod hyn yn aml yn cyflymu'r ymateb. Os nad yw'r mater sydd ganddynt yn derbyn sylw yn unol â gweithdrefnau priodol, neu os ydynt wedi cyrraedd pen y daith o ran gweithdrefnau, yna byddwn yn ymyrryd yn uniongyrchol ar eu rhan.

O bryd i'w gilydd byddwn yn ymyrryd yn llawer cynt, yn enwedig pan fo'n amlwg y gellir datrys y mater yn gyflym iawn. Ymdrinnir â llawer o achosion yn gyflym ac yn llwyddiannus, ond mae llawer angen gwaith hirfaith a chyson ochr yn ochr â'r plentyn neu'r person ifanc. Er nad yw'r Comisiynydd hyd yma wedi defnyddio'r pwerau cyfreithiol i gael gwybodaeth gan asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant, bu'n rhaid atgoffa rhai asiantaethau fod y pwerau hyn yn bodoli.


### Materion ehangach

Daw'r rhain i sylw'r Comisiynydd mewn tair prif ffordd:

1 Caiff gwybodaeth am faterion ac achosion unigol ei chofnodi a'i dadansoddi, er mwyn i fylchau, tueddiadau a meysydd sy'n peri pryder ddod i'r amlwg. Yn 2001-2002 daeth materion fel y ddarpariaeth therapi lleferydd i'w sylw yn y dull hwn.

2 Daw materion penodol i'w sylw trwy gyswllt ag unigolion – plant, pobl ifanc, eu gofalwyr neu weithwyr proffesiynol – neu trwy lythyr, e-bost neu ddeiseb gan unigolion, grwpiau a mudiadau. Daeth pryderon ynglŷn ag adeiladu ysgolion ar gyn safleoedd tirlenwi, safon toiledau ysgol, a sylwadau yn arwain ar sefydlu Ymchwiliad Clywch i sylw'r Comisiynydd yn y modd yma yn ystod y cyfnod dan sylw.

3 Gall digwyddiadau allanol olygu fod galw am weithredu. Byddai Cymdeithas y Plant yn cefnu ar Gymru yn enghraifft o hyn.





Siwan,
oed 13, Treffynnon



Daniel,
oed 11, Wrecsam




Rhys,
oed 12, Hwlffordd



Leanne,
oed 15, Cwmbran

## ASTUDIAETH ACHOS

### Toiledau ysgol

Yn ystod ymweliadau ag ysgolion, digwyddiadau ac adegau eraill lle mae plant a phobl ifanc yn dod ynghyd, clywodd y Comisiynydd Plant gwynion mynych ynglŷn â chyflwr toiledau ysgol. Credai llawer fod hyn yn adlewyrchu'r diffyg parch cyffredinol sydd gan oedolion tuag atynt. Crybwyllwyd drysau nad ydynt yn cloi, dim papur toiled, safon lanhau wael, trefniadau iechydol annigonol ar gyfer merched ifanc, ynghyd â thoreth o ddiffygion ffisegol eraill (heb sôn am ddrewdod).

Roedd cryfder y teimlad yn amlwg, ond nid felly dystiolaeth gadarn am faint y broblem a'r dulliau datrys posibl.

### Ein hymateb

Dechreuodd y Tîm Polisi adolygu safonau polisi ac archwilio cyfredol – gan ystyried pwy allai fod â'r allwedd i ddatrys y broblem.

Cyflawnodd y Tîm Cyfathrebu arolwg o gyflwr toiledau ysgol y genedl gan gynnwys pob grŵp oedran ym mhob rhan o Gymru.

### Gweithredu

Mae'r canfyddiadau bellach yn cael eu dadansoddi a datblygir cynllun gweithredu – gan gynnwys strategaeth ymgyrchu – ar gyfer 2002-2003.

## Y 13 mis cyntaf

Roedd y cyfnod a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn mewn gwirionedd yn gyfnod datblygiadol ar gyfer y swyddfa, a threuliwyd y 13 mis cyntaf yn cyflawni llawer o'r tasgau sylfaenol sy'n gysylltiedig â dechrau sefydliad o'r dechrau. Bu hon yn her enfawr a dymunol, ac erbyn diwedd y cyfnod roedd y ddwy swyddfa yn weithredol a'r rhan fwyaf o staff wedi eu penodi. Datblygwyd systemau ar gyfer rheolaeth ariannol, cynllunio a monitro cyllidebau, a rheolaeth effeithiol a chrëwyd polisïau a gweithdrefnau trwy holl feysydd gweithgaredd y swyddfa.

Ond nid yw hynny yn golygu nad oedd 'gwir' waith y Comisiynydd yn mynd rhagddo.



Siân,
oed 12½, Caerffili



Josh,
oed 10, Glynebwy



Claire,
oed 14, Pencoed



Billy,
oed 12, Hawarden

## Gwrando.....

Treuliodd y Comisiynydd gymaint o amser ag yr oedd modd yn cyfarfod â phlant a phobl ifanc o bob oedran, grwpiau iaith a chefndiroedd – mewn ysgolion, clybiau ieuenctid, neu ym mhle bynnag arall y byddent yn ymgynnull. Y ffordd o fynd ati oedd i wrando a chreu amgylchedd ac awyrgylch sy'n annog rhannu barn a phryderon. Rhoddwyd sylw arbennig i grwpiau pobl ifanc sy'n aml ar y cyrion, a chrëwyd cysylltiadau cyson. Mae rhai cyfarfodydd wedi eu cynnal ynghylch materion penodol tra bo eraill wedi bod yn agored ac yn cael eu harwain gan bobl ifanc.

## Clywed.....

Mae parodrwydd a gallu pobl ifanc i siarad am y pethau sy'n effeithio arnynt ac yn peri pryder iddynt wedi bod yn drawiadol a chyson a chafwyd negeseuon cyson ynglŷn â'r materion a oedd bwysicaf iddynt hwy. Ond mae'n amlwg nad yw'n ddigon i wrando – mae'n rhaid i blant gael gwybod eu bod wedi cael eu clywed a bod barn plant a phobl ifanc yn cael eu rhannu a'u cynrychioli pa bryd bynnag y bydd y cyfle yn codi.

## Trosglwyddo'r neges.....

Mae angen i amddiffynnydd plant fod yn lladmerydd a chynrychioli barn a buddiannau pobl ifanc i'r cyhoedd a'r rhai sy'n llunio polisïau. Yn ystod y flwyddyn gyntaf rhoddwyd cyfweliadau i bapurau newydd cenedlaethol, lleol a'r Deyrnas Unedig, cylchgronau, teledu a radio yn hyrwyddo'r rôl, yn codi ymwybyddiaeth ac yn ymateb i faterion penodol a storïau y newyddion, gan gynnwys adeiladu ysgolion ar gyn safleoedd tirlenwi, straen arholiadau, polisi cyffuriau ac amddiffyn plant.

## Ennill parch.....

Mae ar amddiffynnydd plant hefyd angen ennill parch a'r prawf mwyaf ar gyfer y Comisiynydd yw i gael ei weld gan y bobl ifanc eu hunain fel eu hamddiffynnydd.




## Trafodaeth gyson â gweithwyr proffesiynol a mudiadau

Ymgyrchodd ystod eang o unigolion a mudiadau dros gael Comisiynydd Plant Cymru, a pharhaodd y cysylltiad â grwpiau o'r fath a oedd yn ymboeni ynghylch y mater. Mae cyswllt cyson â mudiadau a grwpiau o oedolion sydd ag effaith glir a sylweddol ar fywydau plant yn hanfodol. Mae llawer o oedolion sy'n adfocadau cryf dros blant a llawer o rai eraill sy'n darparu gwasanaethau rhagorol iddynt. Mae hyn yn cynnwys grwpiau proffesiynol allweddol, fel paediatryddion, gweithwyr cymdeithasol ac athrawon, yn ogystal â rhieni ac asiantaethau gwirfoddol. Sefydlwyd cysylltiadau â rhwydweithiau o'r math yma. Er nad yw buddiannau plant bob amser yn union yr un fath â rhai'r bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda hwy, maent yn debyg yn aml. Byddai cysylltu â'r Comisiynydd yn anodd dros ben i rai plant a phobl ifanc heb gefnogaeth gan oedolion oherwydd eu hoedran neu eu hanghenion cyfathrebu.

## Cefnogaeth arbenigol

Mae mynediad at help arbenigol – yn arbennig ar faterion fel y gyfraith – yn hanfodol. Cyflogir tîm o arbenigwyr cyfreithiol a gofynnir am eu barn trwy gyswllt cyson â grwpiau fel y Grŵp Cyfeirio arbennig a gynullir gan Plant yng Nghymru, a chyrff a chymdeithasau proffesiynol fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol(Cymru).

Mae'r Comisiynydd yn aelod o ENOC (European Network of Ombudspersons for Children) a bu hyn yn ased sylweddol, gan ein galluogi i dynnu ar brofiad eraill sydd â swyddogaethau cyffelyb. Cynhaliwyd ymweliadau â Swyddfeydd yr Ombwdsmyn yn Sweden a Norwy wrth i strwythur staffio'r swyddfa gael ei ddatblygu.

Ceir rhestr o ymweliadau, cyfarfodydd ffurfiol a chynadleddau yn Atodiad Un.

# ASTUDIAETH ACHOS

## 'Helpwch fi i ddod o hyd i logo!'


Cafodd y peirianweithiau dechreuol ar gyfer cyfathrebu â phlant a phobl ifanc hwrdd o dwf ar ddiwedd 2001-2002. Gyda'r holl staff cyfathrebu yn eu swyddi, lansiwyd y chwilfa am logo a delwedd ar gyfer y swyddfa. Anfonwyd dros 100,000 o becynnau at blant yng Nghymru trwy ysgolion, clybiau ieuenctid, cartrefi plant a phrosiectau eraill. Roedd y rhain y cynnwys amlinelliad byr o rôl a swyddogaeth y Comisiynydd ynghyd â syniadau am weithdai, a manylion cyswllt y gallai plant a phobl ifanc eu cadw. Derbyniwyd oddeutu 4,000 cynnig a chawsant eu beirniadu gan blant a phobl ifanc. Enillodd merch ddeuddeg oed, Rhiannon Chapman o Ysgol Uwchradd Castell Alun yn Sir y Fflint y wobr gyntaf o £100 a chaiff yr anrhydedd o weld ei logo'n ymddangos ar bopeth a gynhyrchir gan y Comisiynydd Plant.



Y cynllun buddugol: Rhiannon Chapman gyda Rhodri Owen o S4C a CBBC



Bethany, oed 8, Llanelli



Kaysha, oed 14, Pontnewydd




John, oed 16, Pen-y-bont ar Ogwr





Niki-Lee, oed 10, Saltney

## Cefnogi plant a phobl ifanc: y ffeithiau a'r ffigyrau

Bu cyswllt gan blant a phobl ifanc a gwaith ar achosion unigol yn nodwedd o'r dechreuad.  Ers i'r holl staff gael eu penodi mae'r nifer wedi cynyddu'n gyflymach, fel a ddangosir yn y siart isod.

*Achosion a Materion: Cysylltiadau fesul mis mewn Swydd*

*(hyd ddiwedd Gorffennaf 2002)*





Yn ychwanegol at waith ar faterion neu achosion penodol, mae'r Comisiynydd hefyd yn ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn ystod y cyfnod a drafodir yn yr adroddiad hwn cafodd y systemau ar gyfer cofnodi gwybodaeth ac olrhain cynnydd eu datblygu.  O ganlyniad, bydd yn bosibl dadansoddi'r ystadegau ar gyfer 2002-2003 yn fanwl, tra bo'r ystadegau a gyflwynir yma yn rhoi argraff fras am yr agwedd benodol hon ar waith y swyddfa.

Rhwng pob dim, roedd angen gweithredu ynghylch 112 o'r cysylltiadau a wnaed, ac mae'r siartiau canlynol yn dangos proffiliau oedran a rhyw y plant a'r bobl ifanc hynny.


*Oedran plant a phobl ifanc y gweithredwyd ar eu rhan*

*Mawrth 1 2001 - Mawrth 31 200*




Derbyniodd nifer o unigolyn arall nad oedd dan 18 oed gefnogaeth yn ogystal gan y Comisiynydd Plant gan fod y materion penodol hefyd yn dod o dan ei gyfrifoldebau.


*Rhyw plant a phobl ifanc y gweithredwyd ar eu rhan*



## Sut roeddynt yn cysylltu â'r Comisiynydd


Roedd y rhan fwyaf o gysylltiadau trwy lythyr neu ar y ffôn, er bod cyswllt e-bost bellach yn cynyddu – yn enwedig gyda datblygiad systemau cyfathrebu newydd.

Dull cysylltu â'r Comisiynydd





## O ble y deuai'r plant a'r bobl ifanc?

Nifer y materion o bob ardal Awdurdod Lleol
Mawrth 1 2001 - Mawrth 31 2002





Mor fuan â hyn yn hanes y swyddfa mae'n amlwg y gallai ymwybyddiaeth o fodolaeth y swyddfa fod wedi bod yn fylchog ac ni ellir rhagdybio fod derbyn nifer fawr o gwynion yn brawf o gyffredinolrwydd anawsterau o fewn ardal awdurdod lleol.



Georgia,
oed 10, Brynbuga




Elin Ann,
oed 11, Dinbych



Huw,
oed 7, Llangyfelach




Katie,
oed 9, Bwcle

## Beth oedd y materion?

Materion a gyflwynwyd i'r Comisiynydd


*Mawrth 1 2001 - Mawrth 31 2002*




## Pwy a gysylltodd?

Pobl a gysylltodd â'r Comisiynydd ar ran plant a phobl ifanc

*Mawrth 1 2001 - Mawrth 31 2002*




## Cyswllt arall

Derbyniwyd sylwadau ar ffurf llythyrau a deisebau mawr a bach ar ystod o faterion gan gynnwys ail-leoli ysgolion, diffyg cyfleusterau caeau chwarae a llosgydd Crymlyn Burrows. Derbyniwyd mwy na 500 o enwau ar ddeisebau.

Yn ogystal â'r sylw ymatebol gan y cyfryngau, gwnaed datganiadau cyhoeddus ar agwedd gyffredinol y Comisiynydd Plant, cynigion ar gyfer adeiladu ysgolion ar gyn safleoedd tirlenwi, Cymdeithas y Plant, yr Ymchwiliad Clywch, 'amddiffynnydd plant ers blwyddyn' a straen arholiadau.

## Archwiliad Clywch

Lansiodd Comisiynydd Plant Cymru Archwiliad Clywch ar Fawrth 25 2002. Mae canfyddiadau ac argymhellion yr archwiliad i'w cyhoeddi yn 2003.

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer Archwiliad Clywch i'w weld yn Atodiad Dau i'r adroddiad hwn.

# RHAN DAU: Y ffordd ymlaen

Digwyddodd llawer o ddatblygiadau allweddol yng ngwaith swyddfa a chyda thîm y Comisiynydd Plant ar ddiwedd un y cyfnod sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn. Yn dilyn gwaith datblygu dwys, mae gwaith ei dîm bellach wedi dechrau o ddifrif.

Mae nodau hirdymor ar gyfer cyfnod dal swydd y Comisiynydd presennol (2001–2008) wedi eu pennu, ac elfennau allweddol ohonynt yw:

1) sefydlu peirianweithiau i geisio barn plant a phobl ifanc yng Nghymru ar faterion o bwysigrwydd iddynt hwy, yn arbennig grwpiau plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion.
2) cael peirianweithiau yn eu lle fel bo plant a phobl ifanc yn gysylltiedig mewn modd uniongyrchol ac ystyrlon â phennu ein rhaglen waith, â'i gweithrediad, ac â monitro ei heffeithlonrwydd.
3) sicrhau fod barn plant a phobl ifanc sy'n deillio o'r uchod yn cael eu cynrychioli'n gywir yn yr holl gyfryngau priodol, a'u bod yn hysbys i bawb perthnasol sy'n gwneud penderfyniadau.
4) sefydlu systemau digonol a phriodol i ddelio ag eiriolaeth, cwynion a rhannu pryderon yn yr holl asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru.
5) codi ymwybyddiaeth yn sylweddol am fodolaeth y Comisiynydd Plant, ei rôl a'i swyddogaeth. .
6) Sicrhau bod mwyafrif plant a phobl ifanc Cymru yn ymwybodol o'u hawliau, yn enwedig y rhai a bennir yng Nghytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
7) dylanwadu'n uniongyrchol ar bobl allweddol sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru, gan gynnwys y cyhoedd yn gyffredinol.
8) sefydlu systemau ar gyfer cynllunio, monitro ac adolygu gwaith y Comisiynydd.
9) bod â systemau, gweithdrefnau a threfniadau yn eu lle ar gyfer cyllid ac archwilio sy'n unol â gofynion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.




## Cynlluniau am y flwyddyn i ddod.....

Bob blwyddyn, bydd y Comisiynydd yn cynhyrchu Cynllun Blynyddol a gynllunnir i symud tuag at gyflawni'r nodau strategol. Bydd yn pennu targedau clir, mesuradwy a phenodol pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae ein nodau yn ei gwneud yn ofynnol inni fod yn ymatebol i anghenion a dymuniadau plant a phobl ifanc Cymru, ac i dderbyn y materion a godir ganddynt. Bydd y gwaith sy'n gysylltiedig â'r rheiny yn amrywio gan na fyddant yn wybyddus ymlaen llaw ond bydd ganddynt effaith sylweddol ar ein llwyth gwaith. Felly bydd arnom angen bod yn fodlon adolygu a newid ein cynlluniau. O ganlyniad mae'n rhaid inni fonitro ac adolygu'r defnydd o arian o fewn ein cyllideb yn ogystal.

Yn ystod y flwyddyn 2002-03 – y flwyddyn gyntaf y bydd y Comisiynydd wedi bod yn gweithredu gyda thîm staff sydd bron yn gyflawn – ein nod yw cyfnerthu ac adeiladu ar ddatblygu'r swyddfa, a'r gwaith uniongyrchol.


## Parhau i drafod.....

Mae gwaith cyffrous i'w wneud er mwyn sefydlu cysylltiadau uniongyrchol â phobl ifanc ac mae hyn yn fwyaf amlwg yng nghynlluniau ein tîm Cyfathrebu. Cynhyrchwyd taflen wybodaeth gyffredinol amlbwrpas mewn 6 o ieithoedd Cymru, cardiau cyswllt a phortffolio gweithdai, neu maent yn cael eu datblygu. Mae grŵp arolwg e-bost plant a phobl ifanc yn tyfu'n fwy bob dydd. Datblygir gwefan newydd mewn partneriaeth â grwpiau o bobl ifanc. Byddwn yn sefydlu system beilot o 'lysgenhadon' mewn ysgolion, yn canfod nifer fechan o ddisgyblion a fydd yn trosglwyddo gwybodaeth i'w cyfoedion ynglŷn â'r Comisiynydd, ac yn gweithredu fel sianel gyfathrebu rhwng y Comisiynydd a'r disgyblion.

Byddwn yn cynhyrchu taflenni gwybodaeth, a dogfennau eraill ar ddiwyg sy'n ddeniadol i wahanol grwpiau oedran plant a phobl ifanc. Byddwn yn dosbarthu'r rhain iddynt bob cyfle a gawn, a byddwn yn bresennol mewn digwyddiadau perthnasol ac Eisteddfodau.

Cynhelir cyfarfodydd cyson trwy'r flwyddyn gyda mudiadau pobl ifanc, gyda chynghorau ysgol a fforymau pobl ifanc, ac yn arbennig â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau pobl ifanc sy'n aml ar y cyrion. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Y Rhwydwaith Pobl Ifanc Du
- Grŵp Cyfeirio Anabledd
- Draig Ffynci
- Plant Teithwyr
- Lleisiau o Ofal
- Gofalwyr Ifanc




## Dal i adeiladu.....

Bydd y Comisiynydd a'i dîm yn parhau i ddatblygu'r swyddfa, gan sicrhau fod yr holl systemau a strwythurau yn eu lle i gyflawni gofynion statudol a'n gwneud yn effeithlon ac effeithiol. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith sylweddol a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf, yn enwedig ein polisïau Adnoddau Dynol. Yn ystod ein hail flwyddyn, byddwn yn parhau i fod angen gwella adeiladwaith ein swyddfeydd, a gorffen prynu offer ar eu cyfer. Byddwn yn cyfnerthu ac yn gwella ein hadnoddau, gan gasglu a threfnu gwybodaeth yn y meysydd cyfreithiol, polisi a chyfranogiad i'n harwain yn ein gwaith.

## Dal i drafod.....

Bydd y Comisiynydd a'i dîm yn parhau i gynrychioli barn a buddiannau plant yn y cyfryngau – bob amser yn annog oedolion i wrando ar bobl ifanc ac i'w cynnwys yn ystyrlon yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Byddwn yn cynnal ymgyrchoedd ar faterion penodol. Byddwn yn canolbwyntio ar faterion addysgol yn benodol, gan ddadlau dros welliannau i adeiladau ysgol (yn enwedig trefniadau toiledau) ac ar y profion gormodol.

## Dal i Adolygu.....

Byddwn yn cwblhau cam cyntaf Adolygiad eang o drefniadau eiriolaeth, cwynion a rhannu pryderon ar gyfer pobl ifanc. Mae'r cam cyntaf yn canolbwyntio ar Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol, gyda gwaith dilynol yn edrych ar Iechyd, Addysg a meysydd cysylltiedig. Seilir yr Adolygiad ar holiadur i'w ddychwelyd gan bob Awdurdod Lleol, i'w ddilyn gan gyfweliadau. Ei nod yw canfod pa systemau ac adnoddau sydd yn eu lle, a sut y bwriedir iddynt weithio. Rhoddir llais i blant a phobl ifanc yn yr adolygiad.

## Dal i gyfarfod.....

Bydd y Comisiynydd a'i staff yn parhau i gyfarfod yn gyson trwy gydol y flwyddyn ag ystod o gyrff a mudiadau allweddol.

Cysylltir y Comisiynydd â Cynulliad Cenedlaethol Cymru trwy'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er nad yw'r trefniant gweinyddol yma'n cau allan gysylltu ag Adrannau eraill pan fo hynny'n briodol. Cynhelir cyfarfod â'r Gweinidog ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn, a chynhelir cyfarfod â swyddogion pa bryd bynnag y bydd eu hangen.

## Aros wrth ochr plant a phobl ifanc.....

Bydd y Comisiynydd a'i staff yn parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad i blant a phobl ifanc sy'n cysylltu â'r swyddfa i ofyn am help. Byddwn yn eu helpu i fynegi eu pryderon a'u dymuniadau, ac yn sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth briodol. Pan na allant gael canlyniadau derbyniol, byddwn yn eiriol yn uniongyrchol ar eu rhan. Byddwn yn monitro y ffordd y mae darparwyr gwasanaeth yn ymateb i'r pryderon a fynegir ganddynt, ac yn ymyrryd os na fydd hyn yn unol â gweithdrefnau neu ymarfer gorau. Byddwn yn cynnal cofnodion o'n gwaith fel y gallwn trwy hynny ganfod meysydd a allai elwa o adolygiad mwy systematig. Mae'r maes hwn o'n gweithgaredd yn gysylltiedig â'n gallu a'n bwriad i wneud rôl swyddfa'r Comisiynydd yn hysbys i niferoedd llawer mwy o blant yng Nghymru.

# *RHAN TRI: Adolygiad y Comisiynydd Plant o Faterion perthnasol i hawliau a lles plant*

*Mae'r Adolygiad yma o'r flwyddyn gyntaf yn adlewyrchu'r prif faterion a gafodd eu dwyn i'm sylw yn ystod y cyfnod Mawrth 1 2002-Awst 2002. Rwyf wedi ceisio rhoi'r amlygrwydd pennaf i'r materion y mae plant a phobl ifanc eu hunain wedi datgan sydd bwysicaf. Bydd yr agwedd hon yn parhau i'r dyfodol. Wrth i'n peirianwaith ar gyfer cynnwys ac ymgynghori â phobl ifanc yng Nghymru ddod yn fwy sefydlog, bydd eu barn yn cael eu mynegi yn fwy uniongyrchol a chlir yn fy Adroddiadau. Nid wyf yn cymryd arnaf y gallaf gyflwyno'r holl faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc ar hyn o bryd.*

## Tlodi Plant

Mae traean holl blant Cymru yn byw mewn tlodi. Credaf fod hyn yn gywilydd cenedlaethol, yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Yng Nghymru, mae'r amddifadedd mwyaf yn y cymoedd a phrif drefi De Cymru. Ond mae'r ystadegau cyffredinol yma'n aml yn celu pocedi o dlodi plant eithafol mewn rhannau eraill o'n gwlad. Nid yw plant, yn gyffredinol, wedi dod ataf yn dweud eu bod yn dlawd. Mae hyn yn hollol ddealladwy, o gofio'r stigma sy'n dal ynghlwm wrth incwm isel. Ond mae llawer o blant yn rhoi cyfrif huawdl iawn o effeithiau amddifadedd.

### Yr hyn mae plant yn ei ddweud ynglŷn â thlodi

Maent yn sôn am yr embaras, ac weithiau fwlio uniongyrchol, y maent yn eu profi o ganlyniad i gael prydau ysgol yn rhad ac am ddim – mae un o bob pum plentyn yng Nghymru yn derbyn y rhain. Dywed rhai fod eu hysgol yn delio â'r mater mewn ffordd sensitif, ond mae llawer gormod yn dal i ddynodi disgyblion tlotach gan fod eu systemau darparu prydau rhad ac am ddim yn weladwy iawn. Maent yn adrodd hefyd am beidio â medru mynd ar dripiau ysgol, ac am gael mynediad cyfyngedig yn unig i gyfleusterau hamdden a chyfleusterau cysylltiedig oherwydd y gost uniongyrchol, neu gost cludiant. Dywedodd nifer o bobl ifanc wrthyf y credent y dylai fod cludiant yn rhad ac am ddim i bawb dan 18 mlwydd oed – soniant am drefniadau o'r fath ar gyfer yr henoed – ac mae hwn yn awgrym y byddaf yn ymchwilio ymhellach iddo.

Mae plant tlawd yn mynegi'r un breuddwydion a gobeithion â phobl ifanc eraill, ond gwn fod eu cyfle i'w cyflawni yn llawer llai.

### Pethau eraill y gwyddom amdanynt

Mae tlodi yn effeithio ar bob agwedd o'u bywydau, ac mae ei effeithiau'n parhau pan fyddant yn oedolion. Os ydych yn dlawd pan yn blentyn rydych yn fwy tebygol o gael eich gwahardd o'r ysgol, o ddioddef salwch meddwl neu o fod yn fam arddegol.




Nod y Llywodraeth Lafur yw i ddileu tlodi plant o fewn cenhedlaeth. Roedd y bwriad gwirioneddol ganmoladwy hwn i'w gyflawni trwy gynyddu nifer swyddi, a thrwy fesurau fel credyd treth teuluoedd sy'n gweithio a chynnydd mewn budd-dal plant. Ceir tystiolaeth amlwg fod y rhain yn cael llwyddiant. Cafwyd gostyngiad o 10% yn nifer y plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd hwn yn ddigon cyflym i roi'r llywodraeth ar y llwybr cywir i gyflawni ei darged. Mae'n hanfodol felly fod polisïau ychwanegol yn cael eu troi'n ddeddfau yn y Deyrnas Unedig.

Yma yng Nghymru, nid oes gennym strategaeth gwrth-dlodi a arweinir gan y Cynulliad. Er y gellir dadlau nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol bŵer dros rai o'r prif arfau polisi i ymladd tlodi, nid yw hyn yn golygu nad oes unrhyw beth y gallwn ei wneud. Dylid datblygu strategaeth gwrth-dlodi ar gyfer plant yng Nghymru, a dylai gynnwys pobl ifanc yn uniongyrchol.

Llwyddiant yn dileu tlodi plant fyddai'r peth unigol mwyaf y gallwn ei wneud i helpu ein plant. Nid ydynt yn haeddu ddim llai.

# Parch

## Beth mae plant yn ei ddweud ynglŷn â pharch


Un o'r negeseuon mwyaf trawiadol a chyson rwyf wedi ei chael gan blant a phobl ifanc Cymru yw eu hargraff glir nad ydynt yn cael eu parchu gennym ni, yr oedolion.

Wrth gwrs, mae llawer ohonynt yn siarad am oedolion unigol sydd yn dangos parch tuag atynt fel unigolion, er enghraifft rhieni, ffrindiau ac athrawon. Serch hynny, maent yn teimlo fod cymdeithas oedolion yn ei chyfanrwydd yn amharchus iawn ohonynt, ac yn eu hystyried yn aml yn fygythiad neu'n berygl. Mae'r plant yn sôn am y dull y cânt eu portreadu yn y cyfryngau, ac un o'r pethau a barodd dristwch imi yn y flwyddyn gyntaf hon fel Comisiynydd Plant Cymru fu clywed goslef y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn galw rhaglenni radio ffonio pan oedd y rhaglenni hynny'n canolbwyntio ar blant.

Maent hwy eu hunain yn adrodd am y ffordd y trinnir hwy mewn bwytai, mewn ciwiau bws, mewn canolfannau hamdden ac mewn siopau. O'u safbwynt hwy mae'r neges a roddir gennym mi, yr oedolion, yn glir – nid yw pobl yn eu hoffi'n gyffredinol ac nid yw eu barn yn cael ei chymryd o ddifrif.

## Beth i'w wneud

Nid yw hwn yn fater dibwys ynddo'i hun. Credaf ei fod hefyd o gymorth i greu awyrgylch a chyd-destun lle cred rhai oedolion ei bod yn iawn cam-drin plant unigol, neu eu hesgeuluso.




Mae'n ymddangos mewn gwirionedd fel pe baem yn aml yn meddwl am blant o ran rheoli a disgyblaeth yn unig. Naill ai hynny neu rydym yn eu trin yn nawddoglyd gydag agweddau sy'n seiliedig ar farn sy'n anobeithiol o or-sentimental. Boed hwy'n cael eu gweld fel angylion bach truain, neu ddiafoliaid sy'n bygwth gwead ein cymdeithas, nid yw plant yn cael eu gweld yn glir fel personau ifanc.

Nid oes unrhyw argymhelliad penodol y gallaf ei wneud i'r llywodraeth a fydd yn feddyginiaeth rwydd i'r anhwylder hwn. Yr oll y gallaf ei wneud yw cynrychioli barn y plant yn y fan hyn, ac annog pob oedolyn i edrych arnynt eu hunain, a'r mudiadau maent yn gweithio iddynt, yng ngoleuni'r hyn mae ein plant yn ei ddatgelu inni.

Anogaf y cyfryngau yn ogystal i beidio â bod mor barod i foddio i stereoteipiau difeddwl o bobl ifanc, ac i gyhoeddi eu barn pa bryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Credaf y bydd cryfhau hawliau plant, a chynnydd cyflym a radical yn eu cyfranogiad mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, yn helpu. Mae'n llawer anoddach i oedolion ddal gafael ar farn ragfarnllyd ac anghywir am blant os ydynt yn cydweithio mewn partneriaeth.

Pan fo oedolion yn gwrando ar bobl ifanc, ac yn gweithio ochr yn ochr â hwy, ac yn cydnabod ac yn gwobrwyo'r hyn a gyflawnir ganddynt, yna bydd y ddwy ochr yn elwa. Credaf fod amgylchiadau o'r fath o gymorth i oedolion weld pobl ifanc fel ffynhonnell greadigol, a bod cyd-barch wedyn yn llawer mwy tebygol.

# Cyfranogiad

## Rhai dechreuadau addawol...

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth eiriol dros blant a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn bywyd dinesig yn gyffredinol, a'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer yn benodol.

Mae wedi symbylu ac ariannu sefydlu Draig Ffynci, mudiad pobl ifanc ar gyfer pobl ifanc er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Cynulliad ei hun. Mae'r Fframwaith ar gyfer Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu fforymau ieuenctid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ac mae Ymestyn Hawliau yn cynnig sefydlu cynghorau ysgol ym mhob ysgol. Byddaf yn monitro cynnydd yn y mentrau polisi hyn, sydd i'w croesawu, ond er gwaethaf rhai ymdrechion dilys i ffurfio partneriaethau, yr unig ffordd i ddisgrifio'r cynnydd a wnaed hyd yma yw bylchog ac anghyson.

## Ond rhai hen broblemau...

Mewn mannau eraill, naill ai dim ond ychydig o gynnydd a gafwyd, neu mae'r bobl ifanc yn adrodd am berthynas symbolaidd yn unig, lle mai dim ond gwrando ar eu barn a wneir ar y gorau – ni weithredir fyth ar y farn honno. Mae hyn yn broblem mewn llawer o ardaloedd pan fo oedolion yn ceisio dechrau ar weithio mewn partneriaeth â phobl ifanc. Mewn rhai achosion nid yw cyfranogiad wedi ei sefydlu mewn ffordd a fydd yn annog pobl ifanc i gyfrannu, mewn achosion eraill nodweddir ef gan ddigwyddiadau ar eu pen eu hunain sy'n iawn ynddynt eu hunain, ond ni chânt eu parhau ac nid oes dilyniant iddynt. Mae problemau cyffelyb yn bodoli gyda datblygiad cynghorau ysgol mewn ysgolion. Nid oes gan lawer gormod o ysgolion yng Nghymru ryw lun hyd yn oed ar fforwm cynrychioladol. Mewn mannau eraill, mae plant yn adrodd am gynrychiolwyr y Cyngor yn cael eu dethol gan staff. Mae llawer hefyd yn adrodd bod staff yn rheoli'r cyfarfodydd, a bod materion maent yn eu codi naill ai'n cael eu rhwystro neu'n cael eu hanwybyddu'n dawel. Mae eraill yn rhoi darlun lleol hapusach, gyda gwir bartneriaeth yn datblygu. Cynhaliodd un ysgol yn Sir Benfro arolwg o'i holl ddisgyblion a newidiodd ei strwythur rheoli er mwyn delio â'r materion a godwyd gan y disgyblion.

## Her i oedolion...

Ni chredaf fod rhai o'r arferion gwael mewn cyfranogiad yn fwriadol o du'r oedolion. Yn y rhan fwyaf o achosion nid yw oedolion yn gwybod sut i weithio mewn ffyrdd cyfranogol â phobl ifanc, ac mae llawer wedi dweud wrthyf eu bod yn nerfus o wneud hynny. Cymeradwyaf eu gonestrwydd. Rhaid inni ddelio â'r mater yma er mwyn sicrhau ymglymiad eang gan blant mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Ceir asiantaethau sy'n cynnig cymorth uniongyrchol, ac mae'r sector gwirfoddol yn gyffredinol wedi dangos arweiniad canmoladwy – yn aml yn cynnwys pobl ifanc mewn llunio polisi, darparu gwasanaeth, arfarnu a sicrhau ansawdd, a phenodi staff. Ond nid oes digon o oedolion hyd yma sy'n hyderus ac sy'n meddu ar y sgiliau i weithio fel hyn i gyflawni'r newid mewn diwylliant mae arnom ei eisiau.


## Hyd yn oed mwy o sialensiau...

Mae adrannau Awdurdod Lleol eraill hyd yn oed ymhellach ar ei hôl hi, gydag ond ychydig iawn o gyfranogiad uniongyrchol gan blant a phobl ifanc mewn meysydd fel Hamdden, Mwynderau, Cludiant a Chynllunio Trefol. Gall penderfyniadau gan yr adrannau hyn gael effaith anferth ar fywydau plant, ond yn anaml yn unig y gofynnir am eu barn.

Enghraifft o hyn oedd absenoldeb llwyr ymgynghori dilys â phobl ifanc yr effeithir arnynt gan y penderfyniadau i adeiladu ysgolion ar safleoedd tirlenwi mewn dwy ardal yng Nghymru. Mae'r Gwasanaeth Iechyd hefyd wedi ymdrechu i ddod i delerau'n llwyr â'r rhaglen gyfranogiad. Gyda'r ailstrwythuro sydd ar fin digwydd yn y gwasanaeth, bydd yn ofynnol iddynt ystyried yr angen i gynnwys pobl ifanc ar bob lefel gwasanaeth, gan sefydlu peirianweithiau i ymgynghori a gweithio gyda hwy. Ceir meysydd ymarfer da sy'n dod i'r amlwg – y fenter 'Ysgolion Iach' a gyflawnir yn Sir Gaerfyrddin yn un ohonynt.

## Beth am ddechrau ar y top...

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ei hun beth ffordd i fynd cyn y gall ddweud ei fod yn cyflawni ei uchelgais ar gyfer Cymru ei hun o ran cyfranogiad pobl ifanc, yn ei weithgareddau ei hun yn ogystal â rhai nifer o Gyrff Cyhoeddus a noddir ganddo. Nid oes amheuaeth ei fod i o ddifrif yn ei fwriadau. Cafodd y rhain eu datgan yn glir mewn nifer o ddogfennau polisi pwysig, a cheir tystiolaeth am hyn gan i Is-Bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc gael ei greu, a pharhad y gefnogaeth i Ddraig Ffynci.




Fodd bynnag, mae gormod o ddogfennau polisi yn dal i ddod i'r golwg heb unrhyw dystiolaeth am ymglymiad pobl ifanc, nac unrhyw gynllun i gynnwys pobl ifanc yn y drefn ymgynghori. Mae'n wir hyd yn oed mewn achosion lle bydd y polisïau dan sylw yn cael effaith amlwg ac uniongyrchol ar nifer sylweddol o fywydau plant, e.e. adroddiad SHSCW ar ofal iechyd arbenigol.

Mabwysiadwyd agwedd nodedig a phositif wrth i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio a gweithredu'r fenter Plant yn Gyntaf. Dylai hyn fod yn esiampl ymarfer da, gydag ymgynghori manwl a chyswllt â phobl ifanc.


### Gosod esiamplau...

Penodwyd fi yn Gomisiynydd Plant Cymru trwy broses a oedd yn cynnwys pobl ifanc yn uniongyrchol. Cafodd hyn ei gymeradwyo trwy'r byd cyfan, ac mae mabwysiadu agwedd o'r fath yn glod mawr i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Penodwyd fy holl staff mewn ffordd gyffelyb. Un prif gam tuag at gael llwyddiant yn hyn o beth fyddai i blant a phobl ifanc gyfranogi ym mhenodiad pob swyddog sy'n gweithio mewn gwasanaethau ar gyfer plant. Argymhellaf hyn yn gryf.

Mae cyfranogiad ystyrlon mewn gwneud penderfyniadau yn un ffordd o baratoi pobl ifanc ar gyfer eu rôl fel dinasyddion o oedolion. Caf fy synnu'n gyson ein bod yn disgwyl i bobl ifanc 18 mlwydd oed gyfranogi'n llawn yn ein prosesau cynrychioladol pan ydym wedi rhoi cyn lleied o brofiad uniongyrchol iddynt o ddylanwadu ar y sefydliadau sydd i fod i wasanaethu eu buddiannau, a thrafod â'r sefydliadau hynny.

## Addysg

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn treulio cyfran uchel o'u bywyd yn yr ysgol, neu mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Mae eu hysgolion yn fannau lle maent yn dysgu nid yn unig y meysydd lafur addysgol ffurfiol, ond hefyd lawer ynglyn â pherthynas â'u cyfoedion, a sut mae oedolion yn eu gweld. Mewn llawer o drafodaethâu ynglyn ag addysg ac ysgolion, rydym yn anghofio mai plant yw'r rhanddeiliaid pennaf. Yn bendant, nid ydym yn rhoi llawer o lais iddynt ynglyn â sut y gweithredir y sefydliadau hyn, nac ar gynnwys a ffurf yr addysg a gynigir. Rydym felly yn colli'r cyfle i roi profiad iddynt o brosesau democrataidd, ac o ddylanwadu ar eu hamgylchedd. Ni ddylem synnu cymaint at ddiffyg diddordeb pobl ifanc o ganlyniad mewn prosesau gwleidyddol pan dyfant yn oedolion ifanc.




Mae nifer o faterion penodol rwyf wedi dod yn ymwybodol ohonynt yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd:

### *(a) Anghenion Addysgol Arbennig*

Mae gwasanaethau i blant ag anghenion arbennig yng Nghymru mewn argyfwng, ac mae hynny'n wir hefyd am lawer rhan o'r Deyrnas Unedig. Ceir problemau i gael datganiadau anghenion addysgol, problemau i gael y gwasanaethau ar ôl rhoi datganiadau, a phroblemau gyda chynnal gwasanaethau ar ôl iddynt gael eu derbyn.

Mae rhai o'r problemau hyn yn ymwneud ag adnoddau. Ceir prinder therapyddion lleferydd, er enghraifft, ac mae hyn yn ei dro o ganlyniad i nifer fechan yn cael eu hyfforddi a diffyg llwybrau gyrfa amlwg ar gyfer y rhai sydd wedi eu hyfforddi. Ceir problemau penodol wrth ddarparu gwasanaethau o'r fath trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae llawer o rieni yn wynebu'r dewis annerbyniol naill ai o dderbyn gwasanaeth yn y Saesneg neu ddim gwasanaeth o gwbl.

### Dod ynghyd...

Caiff rhai problemau eraill eu peri gan anawsterau mewn trefniadau gweithio ar y cyd rhwng Addysg, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fel arfer mae angen i'r holl asiantaethau hyn gydweithio er mwyn cael y gwasanaethau y mae ar y plentyn eu hangen. Mae prosesau'n llawer rhy araf, a'r person ifanc fydd yn byw gyda'r canlyniadau o oedi cyn derbyn gwasanaeth – yn arbennig yn ystod y blynyddoedd tyngedfennol pan allai fod mor llesol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi Adolygiad cyffredinol o Addysg Anghenion Arbennig, a chroesawaf hyn. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gyflawni Adolygiad trylwyr yng Nghymru, ac ymrwymo'r adnoddau i gyflawni ei argymhellion.

## (b) Gwaharddiadau

### Nid mater o 'ni a nhw' mo hyn...

Gall gwaharddiadau o'r ysgol gael effaith ddinistriol ar ddisgwyliadau bywyd y plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei wahardd. Ceir llawer o ymchwil a thystiolaeth am hyn. Pan drafodir y mater yn gyhoeddus mae fel arfer yng nghyd-destun trafodaeth ynghylch disgyblaeth a rheolaeth, a gwelir buddiannau'r person ifanc fel rhai sy'n groes i fuddiannau'r athrawon.

Yn fy nhrafodaethau â'r ddwy ochr, nid wyf wedi canfod fod hyn yn adlewyrchiad digonol na chywir o'r sefyllfa. Yn bendant, mae ar athrawon angen trefn dda er mwyn medru cyflawni eu rôl, ond mae llawer ohonynt yn teimlo eu bod yn gorfod defnyddio gwahardd gan nad oes ond ychydig o ddewisiadau eraill adeiladol, os oes rhai o gwbl. Ychydig iawn o gefnogaeth a geir o fewn ac oddi allan i'r ysgol a fyddai'n caniatáu iddynt addysgu tra bo eraill yn cymryd cyfrifoldeb dros ba faterion bynnag sy'n arwain at yr ymddygiad sy'n peri problem. Mae llawer o athrawon wedi disgrifio wrthyf sut y maent yn teimlo fod gan yr agenda rheolaeth ran rhy fawr o lawer yn eu gwaith, ac y byddent yn croesawu cefnogaeth gan eraill i rannu'r baich yma.

### Dal i'w cynnwys...

Rwyf yn llawn edmygedd o fentrau mewn ysgolion i geisio taclo'r mater yma mewn ffyrdd newydd. Ym Mhorth Tywyn, mae ysgol wedi gostwng gwaharddiadau 70% trwy gyflogi athro arbennig, a chynghorydd i uned gefnogi o fewn yr ysgol. Mewn ysgol arall yn Ne Cymru, mae gan y gwasanaeth ieuenctid staff ar safle'r ysgol sy'n gweithio â phobl ifanc y mae perygl iddynt gael eu gwahardd. Ceir llawer o fentrau eraill o'r fath sy'n caniatáu i'r staff addysgu wneud hynny mewn amgylchedd a reolir, ac yn anfynych iawn y mae'n rhaid i'r ysgol wahardd plentyn o ganlyniad. Croesewir y rhain yn gyffredinol gan y disgyblion a'r athrawon, fel dull sy'n llawer mwy adeiladol na gwahardd. Rwyf wedi sylwi fod llawer o ysgolion o'r fath hefyd yn gwneud ymdrechion o ddifrif i gynnwys y disgyblion i raddau helaethach mewn penderfyniadau o fewn yr ysgol. Mae'r agwedd hon yn dwyn ffrwyth.


## (c) Profi

Yn 2002 roedd carfan y disgyblion a oedd yn sefyll arholiadau lefel A yn unigryw gan mai dyma mae'n debyg oedd y gr_p pobl ifanc oedd wedi cael eu profi fwyaf ers i addysg fod ar gael i bawb yng Nghymru. Hwy oedd y cyntaf i sefyll y TASAU cyfnod allweddol 1, ac yna cawsant eu profi ar gyfnodau allweddol eraill. Ar ôl sefyll eu harholiadau TGAU, hwy wedyn oedd y rhai cyntaf i sefyll yr arholiadau lefel AS.

Mae llawer o ddisgyblion wedi siarad â mi am yr effeithiau profwyd o ganlyniad i'r gyfundrefn hon. Nid yw rhai wedi cael unrhyw broblemau, ond mae'r rhan fwyaf wedi disgrifio sut mae'n teimlo i ganolbwyntio am gyfnod mor faith ar gwblhau modiwlau ac arholiadau. Mae llawer yn disgrifio symptomau amlwg o straen gormodol, tra bo eraill yn sôn am raddol golli'r wefr o ddysgu.

Mae angen systemau arnom i sicrhau fod ein plant yn dysgu yr hyn sydd ei angen arnynt i'w cymhwyso ar gyfer tyfu'n oedolion. Rydym angen dangosyddion hefyd am sut mae ysgolion yn perfformio. Fodd bynnag, mae angen inni fod yn ofalus i sicrhau nad ydym yn profi ein plant yn ormodol, ac mae'n rhaid inni fod yn argyhoeddedig fod y gyfundrefn brofi yn fanteisiol i'n prosesau addysgol. Wrth wneud hynny, rydym angen sicrhau hefyd ein bod yn gwrando ar athrawon, y mae llawer ohonynt wedi disgrifio'r cyfnodau pan deimlant fod profi disgyblion yn llurgunio eu llwyth gwaith a'r addysg a ddarperir.

Rwyf yn falch iawn bod profi yng Nghyfnod Allweddol 1 wedi'i ddileu yng Nghymru, ac rwyf yn annog trafodaeth genedlaethol ynglŷn â'r gyfundrefn profi y mae arnom ei heisiau. Dylai hyn gynnwys gwrando ar farn disgyblion ac athrawon, yn ogystal â rhieni.




Dylem fod yn ymwybodol mai dim ond un elfen o addysg yw hyfforddiant academaidd, a bod llawer o ddysgu mewn ysgolion yn digwydd tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol. Dylem fod yn ymwybodol hefyd fod llawer o'r sgiliau y mae eu hangen ar gyflogwyr mewn busnesau heddiw yn ymwneud â gweithio mewn tîm a sgiliau rhyngbersonol. Mae angen rhoi ystyriaeth yr un mor ofalus, a'r un flaenoriaeth i'r elfennau hyn ag a roddir i sgiliau academaidd. Fe ŵyr llawer o ysgolion yng Nghymru hyn. Rhaid inni sicrhau fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein trafodaeth gyhoeddus a gwleidyddol, ac yn ein polisïau.

### (d) Adeiladau a chyfleusterau ysgol


Yn ogystal â phryderon ynglyn â safon cyfleusterau toiled, caiff adeiladau ysgol eu crybwyll yn aml gan blant a phobl ifanc. Mae'n amlwg fod gennym nifer o ysgolion yng Nghymru o hyd nad ydynt yn addas i'w pwrpas, ac mae'r plant yn yr ysgolion hyn yn ymwybodol iawn o'r diffygion. Mae angen i hyn barhau'n flaenoriaeth uchel ar gyfer y Cynulliad.

## Hawliau Plant

Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn llofnodwr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gyda dau ymataliad ar blant sy'n ffoaduriaid a phlant sy'n filwyr. Credaf nad yw'r ddau ymataliad yma'n adlewyrchu'n dda ar ein gwlad ac y dylid eu dileu. Dylid ystyried plant sy'n ffoaduriaid, a'r rhai sy'n ceisio lloches, fel plant yn gyntaf oll, a rhoi iddynt yr holl hawliau a gwasanaethau rydym ni yn dyheu amdanynt ar gyfer ein holl blant.

Ceir sawl grwp o bobl ifanc yng Nghymru sy'n gwneud yn wael pan ystyrir eu hawliau yng nghyd-destun Cytundeb y Cenhedloedd Unedig. Rhai yn unig o'r rhain yw Plant yn Derbyn Gofal, plant teithwyr, pobl ifanc mewn cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig a gofalwyr ifanc. Bydd fy swyddfa yn rhoi sylw arbennig i'r grwpiau yma.

Bydd Adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys adolygiad mwy systematig o sut mae plant yn gwneud yng Nghymru yng ngoleuni eu hawliau dan Gytundeb y Cenhedloedd Unedig.




### Cosbi Corfforol

Cefnogaf yn gryf yr ymgyrch i ddileu'r amddiffyniad cosbedigaeth resymol o gyfraith y Deyrnas Unedig. Ym aml fe welir y mater hwn, yn gyfeiliornus yn fy marn i, fel un sy'n ymwneud â tharo plant. Mae llawer o bobl yn ystyried y mater o ran barn rhiant 'rhesymol', gan ddisgrifio 'tap ysgafn ar y llaw'. Mae fy mhrofiad yn gwrando ar blant a alwodd ChildLine yn dweud wrthyf fod hyd yn oed hynny yn cael ei brofi'n wahanol iawn gan y plant eu hunain. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o oedolion yn mynd lawer ymhellach wrth gosbi plant. Bydd pobl yn dweud yn aml – "ond beth arall wnewch chi pan fo rhesymu â phlant yn methu?" Yr ymateb amlwg yw "Beth fyddwch yn ei wneud pan nad yw taro plentyn yn gweithio? Ei daro'n galetach?" Mae tuedd gyda tharo tuag at gynyddu'r trais. Cafwyd achosion o guro gyda gwregysau a darnau o bren yn cael eu hystyried yn dderbyniol yn y llysoedd Prydeinig, triniaeth a fyddai mae'n debyg wedi arwain at erlyniad llwyddiannus pe bai'r dioddefwyr yn anifeiliaid.

Credaf nad yw gwlad sydd yn parhau i ganiatáu taro babanod, ac sy'n ystyried fod ymosod ar bobl ifanc yn dderbyniol, yn un lle nad ydym yn debygol o fynd ymhell iawn o ran partneriaeth gyda'n pobl ifanc. Caiff ymdrechion i sicrhau pobl ifanc ein bod yn eu parchu eu tanseilio'n llwyr gan gyfraith sy'n datgan mai hwy yw'r unig grŵp yn ein cymdeithas y gellir eu taro yn ddi-gosb. Yn fy marn i, dylid ystyried cosbi corfforol fel triniaeth annynol neu ddiraddiol dan erthygl 19 o Gytundeb y Cenhedloedd Unedig. Mae ymchwil mewn gwledydd eraill sydd wedi gwneud cosbi corfforol yn anghyfreithlon yn amlwg a phositif iawn. Bydd fy swyddfa'n parhau i ymgyrchu dros hawl sylfaenol plant i beidio â chael oedolion yn ymosod arnynt.

### Eiriolaeth, cwynion a rhannu pryderon

Mae systemau i alluogi plant a phobl ifanc i wneud cwynion, ac i oedolion sy'n bryderus rannu'r pryderon hynny pan fo cyflogwyr yn gweithredu yn groes i fuddiannau plant, yn elfen hanfodol bwysig o amddiffyn eu hawliau a'u lles. Nid oes gan y rhan fwyaf o bobl ifanc yr wyf wedi gwrando arnynt ddarlun clir o sut y gallant gwyno, neu ble y gallent gael cefnogaeth i wneud hynny.

Rwyf wedi rhoi Adolygiad o systemau o'r fath ar waith, gan ddechrau gyda'r rhai mewn Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol. Dyma'r elfen gyntaf o Adolygiad o systemau o'r fath ym mhob maes sy'n cyffwrdd â bywydau plant.

# RHAN PEDWAR: Comisiynydd Plant Cymru

*Cyfrifon ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth 2001 – 31 Mawrth 2002*

# RHAGAIR I'R CYFRIFON

## Swyddogaeth a gweithrediad

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2002. Pennir pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau'r Comisiynydd yn y Ddeddf hon. Daeth Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru i rym ym mis Awst 2001. Dechreuodd y Comisiynydd cyntaf, Mr Peter Clarke, ei ddyletswyddau ar Fawrth 1 2001. Yn ystod ei flwyddyn gyntaf sefydlodd swyddfeydd yn Abertawe a Bae Colwyn, a dyfeisiodd strwythur staffio. Penodwyd staff, gyda phlant yn chwarae rhan uniongyrchol yn y cyfweliadau, i 17 o'r 22 swydd a fydd yn ffurfio tîm y staff yn y pen draw.

Digwyddodd y datblygiadau hyn heb fod na chynllun wedi ei benderfynu ymlaen llaw na chynsail mewn swyddfa arall gyffelyb mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig.

Felly roedd y gwaith datblygu yn cynnwys pob elfen yn gysylltiedig â sefydlu fframwaith trefniadol, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i ffurfio grwpiau cyfeirio o bobl ifanc i helpu i roi arweiniad i'r Comisiynydd wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau ac ar gynnwys ei raglen waith flynyddol ac i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o swyddogaeth a phwerau'r Comisiynydd a'r ffyrdd y gallant gysylltu gydag ef a'i staff.

Pennir swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru yn y ddeddfwriaeth berthnasol y cyfeirir ati yn y paragraff cyntaf. Dylid nodi fod y ddeddfwriaeth yn 'ganiataol' yn yr ystyr mai ond ychydig o ddyletswyddau penodol mae'n eu rhoi i'r Comisiynydd, ond mae'n galluogi gweithrediadau ac ymyriadau dros ystod eang dan y pŵer cyffredinol i weithredu fel 'amddiffynnydd plant a phobl ifanc yng Nghymru'. Golyga hyn fod gweithgareddau'r Comisiynydd yn debygol o amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei ddirnad fel y materion pwysicaf ar gyfer lles plant a phobl ifanc. Ceir gofyn amlwg yn y Rheoliadau i'r Comisiynydd gynnwys plant a phobl ifanc a chanfod eu barn wrth gynllunio a chyflawni ei waith.

Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi pwerau pwysig, yn bennaf o ran hawl i wybodaeth gan bobl neu asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer plant. Cyfyngir y pwerau cryfaf i feysydd a ddatganolwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r rhain yn cynnwys cyflawni swyddogaethau:

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Llywodraeth Leol (e.e. Addysg, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Hamdden ayb. gan gynnwys arolygu)
- Gwasanaethau Iechyd
- Nifer o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

Mae'r Comisiynydd Plant yn Gorfforaeth Unigol yn ôl y gyfraith ac ef yw'r Swyddog Cyfrifo, fel deiliad y swydd. Mae'n ofynnol iddo gynhyrchu Adroddiad Blynyddol i Brif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n crynhoi'r hyn a wnaed wrth gyflawni ei swyddogaethau, adolygiad o faterion sy'n berthnasol i hawliau a lles plant yng Nghymru a chrynodeb o'i raglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Rhaid i'r Comisiynydd hefyd gynhyrchu fersiwn o'r adroddiad blynyddol sy'n addas ar gyfer plant, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Anfonir copïau o'i adroddiad i lyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Prif Nodau ac Amcanion

Prif Nod Comisiynydd Plant Cymru wrth gyflawni ei swyddogaethau yw diogelu a hybu hawliau a lles plant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn deillio o'r statudau perthnasol ac maent fel a ganlyn:

- gwneud plant yn ymwybodol o'u hawliau dan Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- sicrhau fod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o swyddogaeth a phwerau Comisiynydd Plant Cymru
- hybu cyfranogiad plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- gofyn am farn plant a phobl ifanc ar y gwaith y bydd y Comisiynydd yn ei wneud
- cynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol yng ngwaith y Comisiynydd
- gwneud ymdrechion arbennig i sicrhau fod lleisiau grwpiau plant sydd ar y cyrion yn cael eu clywed, ac y gweithredir ar eu barn
- adolygu a monitro trefniadau ar gyfer cwynion gan blant, ac ar gyfer trefniadau eiriolaeth a rhannu pryderon
- helpu i newid agweddau cyhoeddus tuag at blant yng Nghymru
- rheoli swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn effeithiol, effeithlon a darbodus

## Cyllido

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond mae'n cael ei gyllido ganddo.

### Ffurf y cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol yma yn unol â Pharagraff 7(2) Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd hwnnw gan Y Comisiynydd Plant, Llys Siarter, Phoenix Way, Abertawe, SA7 9FS.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod Mawrth 1 2001 hyd Fawrth 31 2002 ac maent yn adlewyrchu asedau, ymrwymiadau a chanlyniad ariannol y Comisiynydd Plant yn unig.

## Canlyniadau am y flwyddyn

Mae'r Datganiad Cost Weithredu yn dangos cost weithredu glir o £706,000 am y cyfnod. Mae mantolen y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn £237,000 mewn credyd. Mae'r fantolen hon yn adlewyrchu'n bennaf fuddsoddiad y Comisiynydd mewn technoleg gwybodaeth, dodrefn ac offer swyddfa.

## Adolygiad o Weithgareddau a Datblygiadau yn y Dyfodol

Fel y dywedwyd, cyflwynir adroddiad yn adolygu gweithgareddau a datblygiadau yn y dyfodol yn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru a gyflwynir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref 2002. Dyma fydd adroddiad blynyddol cyntaf y Comisiynydd.

## Uwch swyddogion

Aelodau'r Tîm Rheoli yn ystod y cyfnod oedd:

| | |
|---|---|
| **Peter Clarke** | Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifo |
| **Maria Battle** | Is-Gomisiynydd, Cyfreithiol a Gweinyddol (Dirprwy) |
| **Rhian Davies** | Is-Gomisiynydd, Polisi ac Gwerthuso Gwasanaethau |
| **Sara Reid** | Is-Gomisiynydd, Cyfathrebu |

## Penodiadau uwch swyddogion

Penodwyd y Comisiynydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a dechreuodd yn ei swydd ar Fawrth 1 2001. Roedd y penodiad i barhau am 7 mlynedd fan hwyaf.

Dechreuodd gweddill yr uwch swyddogion yn eu swyddi rhwng Ionawr 2002 a Mawrth 2002 a phenodwyd hwy gan y Comisiynydd dan Atodlen 2 paragraff 4 Deddfa Safonau Gofal 2000.

## Cyflogau aelodau'r Bwrdd Rheoli

Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n pennu cyflog Comisiynydd Plant Cymru yn unol ag Atodlen 2 paragraff 3 Deddf Safonau Gofal 2000.

Pennwyd cyflogau aelodau eraill y Tîm Rheoli gan Gomisiynydd Plant Cymru yn seiliedig ar arweiniad gan arbenigwyr penodi i'r gwasanaeth sifil.

Ceir mwy o fanylion am gyflogau yn nodyn 2 i'r cyfrifon hyn.

## Cynllun pensiwn

Gall gweithwyr presennol ddewis ymuno â chynllun a weinyddir gan yr Ymddiriedolaeth Bensiwn, sy'n gynllun cyfrannol heb nawdd ariannol (gweler nodyn 1.8 i'r cyfrifon hyn).

## Cyfle cyfartal

Cafodd pob cais am waith gyda Chomisiynydd Plant Cymru ei ystyried ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal i gael swydd a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithiwr dderbyn triniaeth llai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig neu batrymau gwaith e.e. rhan-amser, ac ni ddylai unrhyw unigolyn fod dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir dangos y gellir eu cyfiawnhau.

## Polisi talu

Dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, mae'n ofynnol i Gomisiynydd Plant Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghytundeb yn eu cylch cyn pen 30 diwrnod ar ôl derbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Cyflawnwyd hyn gyda 97% o'r holl daliadau o'r fath a wnaed yn ystod y cyfnod.

## Archwilwyr

Caiff cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 9 Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000. Yn unol ag ymarfer gorau cyfredol, mae'r Comisiynydd Plant ar ganol sefydlu pwyllgor archwilio i'w gynghori ar ddigonolrwydd trefniadau archwilio (mewnol ac allanol).

## Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar y ddealltwriaeth o'r datganiadau ariannol yma.

**Peter Clarke**
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifo
Awst 30 2002

## *DATGANIAD AM GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFO*

Dan atodlen 2 Deddf Safonau Gofal, mae'n ofynnol i Gomisiynydd Plant Cymru gadw cofnodion cyfrifo priodol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, i gydymffurfio â chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhoi manylion am yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddaliwyd neu a werthwyd yn ystod y cyfnod ac am ddefnydd Comisiynydd Cymru o adnoddau yn ystod y cyfnod.

Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi barn wir a theg am sefyllfa Comisiynydd Plant Cymru, y gwir ganlyniad o ran adnoddau, adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llif arian ar gyfer y cyfnod.

Mae Atodlen 2, paragraff 10 Deddf Safonau Gofal 2000 yn datgan mai'r Comisiynydd fydd y Swyddog Cyfrifo, ac, yn unol ag atodlen 2 paragraff 9, rhaid iddo gyflwyno Cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a baratowyd gan y Trysorlys, ac yn benodol:

- gydymffurfio â gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifo priodol yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan os yw safonau cyfrifo perthnasol, a nodir yn y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau, wedi eu dilyn a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Comisiynydd Plant Cymru, yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifo a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

## DATGANIAD AM REOLAETH FEWNOL

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn cydnabod fy nghyfrifoldeb dros sicrhau fod system reolaeth fewnol effeithiol yn cael ei chynnal a'i gweithredu yn gysylltiedig â'r adnoddau dan sylw. Fel corff bychan, gwneir yr holl benderfyniadau ariannol a gweithredol allweddol o ddydd i ddydd naill ai gennyf fi neu gyda'm cytundeb i.

Seilir y system reolaeth fewnol ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i adnabod y prif risgiau i gyflawni fy mholisïau, nodau a'm hamcanion, i arfarnu natur a maint y risgiau hynny ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Disgwyliaf y bydd y gweithdrefnau sy'n angenrheidiol i weithredu canllawiau'r Trysorlys yn eu lle cyn mis Mawrth 2003, gan mai hon fydd y flwyddyn gyntaf y bu fy swyddfa'n gweithredu gyda thîm rheoli llawn. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth yr amser sydd ei angen i sefydlu'n llwyr y prosesau y cytunodd y tîm rheoli y dylid eu sefydlu, ac i'w cryfhau.

Byddwn yn cynnal gweithdy rheoli risg, gyda chynrychiolwyr staff o bob graddfa trwy'r swyddfa gyfan yn bresennol, er mwyn nodi fy amcanion a risgiau a phennu strategaeth reoli ar gyfer pob un o'r risgiau sylweddol.

Bydd aelodau o'r tîm rheoli yn derbyn hyfforddiant rheoli risg er mwyn medru ystyried rheolaeth fewnol a rheoli risg yn llawn ac yn gyson yn ystod y flwyddyn. Bwriadaf gyflawni asesiad risg a rheolaeth llawn cyn cyflwyno adroddiad am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 2003. Cynhwysir rheolaeth risg yn llawnach yn fy mhrosesau cynllunio a phenderfynu corfforaethol.

Rwyf ar ganol sefydlu pwyllgor archwilio, gan ofyn am arweiniad gan aelodau archwilio mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn gwneud hynny. Ar ôl ei sefydlu, bydd yr Uwch Dîm Rheoli yn derbyn adroddiadau o bryd i'w gilydd ar reolaeth fewnol ac yn gofyn am adroddiadau cyson gan reolwyr ar yr hyn a wneir ganddynt i reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb hwy, gan gynnwys adroddiadau ar gynnydd ar brosiectau allweddol.

Yn ystod y flwyddyn i ddod bwriadaf:

- drefnu rhaglen gyson o weithdai wedi eu hwyluso i adnabod y risgiau sy'n wynebu'r corff ac i ddiweddaru'r cofnod risgiau;
- cyflwyno rhaglen o hyfforddiant ymwybyddiaeth-risg;
- sefydlu system o ddangosyddion allweddol ar berfformiad a risg;
- datblygu a chynnal cofrestr risg trwy'r corff cyfan;
- trefnu i dderbyn adroddiadau gan fy uwch reolwyr ar weithgareddau rheolaeth fewnol.

Defnyddiaf wasanaethau Uned Archwilio Fewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n gweithredu yn unol â safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, ac rwyf ar ganol ystyried cytundeb lefel gwasanaeth drafft i ddarparu gwasanaethau Archwilio Mewnol yn unol ag ef. Bydd hyn yn sicrhau y cyflwynir adroddiadau yn rheolaidd, sy'n cynnwys barn annibynnol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd system rheolaeth fewnol fy swyddfa ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Goleuir fy adolygiad o effeithlonrwydd y system rheolaeth fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r uwch reolwyr yn fy swyddfa sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a chan sylwadau a wneir gan yr archwilwyr mewnol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

**Peter Clarke**
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifo
Awst 30 2002

# *Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 27 i 35 dan baragraff 9(2) atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000. Paratowyd y datganiadau ariannol yma dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u haddaswyd trwy ail-brisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalen 31.

## Cyfrifoldebau priodol Comisiynydd Plant Cymru a'r Archwilydd

Fel a ddisgrifiwyd ar dudalen 24, mae Comisiynydd Plant Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed yn unol â'r Ddeddf honno ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Comisiynydd hefyd yn gyfrifol am baratoi gweddill cynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Sefydlir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, trwy statud ac arweinir hwy gan y Bwrdd Arferion Archwilio a chyfarwyddyd ethegol y proffesiwn archwilio.

Cyflwynaf fy adroddiad yn rhoi fy marn ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed yn unol â'r Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyriaeth o bwys, wedi eu defnyddio i'r dibenion y bwriadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru iddynt gael eu defnyddio ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddwn hefyd yn adrodd pe na bai'r Rhagair yn gyson â'r datganiadau ariannol yn fy marn i, pe na bai'r Comisiynydd wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu pe na bawn wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad sydd arnaf eu hangen ar gyfer cyflawni fy archwiliad.

Byddaf yn darllen yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol wedi eu harchwilio. Byddaf yn ystyried y goblygiadau o ran fy nhystysgrif pe bawn yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau o bwys o fewn y datganiadau ariannol.

Byddaf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalen 25 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Comisiynydd â chyfarwyddyd y Trysorlys 'Rheolaeth Gorfforaethol: Datganiad ar Reolaeth Fewnol'. Byddaf yn adrodd os nad yw'n cyflawni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu yn anghyson â gwybodaeth arall y gwn amdani o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Y sail i farn yr Archwilydd

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwiliad, ar sail brawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datguddiadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a phob barn o bwys a wnaed gan y Comisiynydd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn addas i amgylchiadau'r Comisiynydd, a ddefnyddir hwy'n gyson ac a ddatgelir hwy'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad y tybiais oedd eu hangen er mwyn rhoi imi dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi trwy gamgymeriad, neu trwy dwyll neu afreoleidd-dra arall, a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyriaeth o bwys, wedi eu defnyddio i'r dibenion y bwriadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru iddynt gael eu defnyddio a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth benderfynu, rwyf hefyd wedi arfarnu digonolrwydd cyffredinol y dull y cyflwynir gwybodaeth yn y datganiadau ariannol.

## Barn

### Yn fy marn:

- Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Plant Cymru ar Fawrth 31 2002 ac am y gwir ganlyniad o ran adnoddau, adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llif arian ar gyfer y cyfnod 13 mis a ddaeth i ben bryd hynny. Hefyd eu bod wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â'r Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- mae'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyriaeth o bwys wedi eu defnyddio i'r diben y bwriadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru iddynt gael eu defnyddio ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w cyflwyno ar y datganiadau ariannol hyn.

**John Bourn**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
*Medi 9 2002*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

# Atodlen 1

## *Datganiad am y Canlyniad o ran Adnoddau*

*am y cyfnod Mawrth 1 2001 hyd Fawrth 31 2002*

| | 2001-02 | | |
|---|---|---|---|
| | **Gwariant crynswth £000** | **Incwm £000** | **Gwir gyfanswm £000** |
| Costau gweinyddu | 706 | - | 706 |

**Cysoniad canlyniad o ran adnoddau â'r gwir angen am arian**

| | | £000 |
|---|---|---|
| Gwir gyfanswm canlyniad o ran adnoddau | ***(Atodlen 2)*** | 706 |
| Caffaeliadau asedau sefydlog | **(Nodyn 4)** | 378 |
| Cysoniadau croniadau: | | |
| Eitemau anariannol | **(Nodyn 3)** | (93) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithredol ac eithrio arian | **(Nodyn 5)** | (71) |
| Gwir angen am arian | ***(Atodlen 4)*** | **920** |

Cymeradwyodd y Cynulliad Cenedlaethol amcangyfrif o £936,000 ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru am y cyfnod Mawrth 1 2002 hyd Fawrth 31 2002. Roedd yr amcangyfrif hwn ar sail arian, gan mai dim ond oddi ar 2002-03 y mabwysiadodd y Cynulliad gyllidebu yn seiliedig ar adnoddau.

# Atodlen 2

## *Datganiad Costau Gweithredu*

*am y cyfnod Mawrth 1 2001 hyd Fawrth 31 2002*

| | | 2001-2002 | |
|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£000** | **£000** |
| **Costau Gweinyddol** | | | |
| Costau staff | **2** | | 154 |
| Costau gweinyddol eraill | **3** | | 552 |
| Costau gweinyddol crynswth | | | 706 |
| Incwm gweithredu | | | - |
| **Gwir gostau gweithredu** | | | **706** |
| **Gwir ganlyniad o ran adnoddau** | | | **706** |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus.
Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai y cyflwynwyd adroddiad yn eu cylch yn y Datganiad Cost Weithredu.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 31 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn.*

# Atodlen 3

## Mantolen

ar Fawrth 31 2002

| | Nodyn | 2002 £000 | 2002 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | |
| Asedau Diriaethol | 4 | | 292 |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 6 | 4 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 7 | 16 | |
| | | 20 | |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | 8 | (75) | |
| **Gwir ddyledion cyfredol** | | | (55) |
| **Cyfanswm asedau llai ymrwymiadau cyfredol** | | | 237 |
| *Ariennir gan:* | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 9 | | 237 |

**Peter Clarke**
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifo
Awst 30 2002

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 31 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn.*

# Atodlen 4

## Datganiad Llif Arian

*am y cyfnod Mawrth1 2001 hyd Fawrth 31 2002*

| | Nodyn | 2001-02 £000 |
|---|---|---|
| Gwir echlif arian o weithrediadau | | (542) |
| Gwariant cyfalaf | 4 | (378) |
| Cyllid gan y Cynulliad | | 936 |
| Cynnydd mewn arian yn ystod y cyfnod | | **16** |

**Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian**

| | | £000 |
|---|---|---|
| **Cysoniad costau gweithredu â llif arian gweithredol** | | |
| Gwir Gost Gweithredu | | 706 |
| Addasu ar gyfer: | | |
| Trafodion anariannol | 3 | (93) |
| Symudiadau cyfalaf gweithredol ac eithrio arian | 5 | (71) |
| **Gwir echlif arian o weithrediadau** | | 542 |
| **Dadansoddiad o wariant cyfalaf** | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | 4 | 378 |
| **Gwir echlif arian o wariant cyfalaf** | | 378 |
| **Dadansoddiad o gyllido** | | |
| Cyllid gan y Cynulliad | | 936 |
| (Cynnydd) mewn arian | 7 | (16) |
| **Gwir angen am arian** | | 920 |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 31 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn.*

# Atodlen 5

## *Adnoddau fesul Nod ac Amcan Adrannol*

*am y cyfnod Mawrth1 2001 hyd Fawrth 31 2002*

Nod: Amddiffyn a hybu hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru

| | | | 2001-2002 | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Crynswth £000** | **Incwm £000** | **Gwir £000** |
| **Amcan:** | | | | |
| 1. | Sicrhau fod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o swyddogaeth a phwerau Comisiynydd Plant Cymru | 706 | - | 706 |
| 2. | Gwneud plant yn ymwybodol o'u hawliau dan Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn | - | - | - |
| 3. | Hybu cyfranogiad plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt | - | - | - |
| 4. | Gofyn am farn plant a phobl ifanc ar y gwaith y bydd y Comisiynydd yn ei wneud | - | - | - |
| 5. | Cynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol yng ngwaith y Comisiynydd | - | - | - |
| 6. | Gwneud ymdrechion arbennig i sicrhau fod lleisiau grwpiau plant sydd ar y cyrion yn cael eu clywed, ac y gweithredir ar eu barn | - | - | - |
| 7. | Adolygu a monitro trefniadau ar gyfer cwynion gan blant, ac ar gyfer trefniadau eiriolaeth a rhannu pryderon | - | - | - |
| 8. | Helpu i newid agweddau cyhoeddus tuag at blant yng Nghymru | - | - | - |
| 9. | Rheoli swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn effeithiol, effeithlon a darbodus | - | - | - |
| **Gwir gost gweithredu** | | **706** | **-** | **706** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 31 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn.*

# Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

## 1. Datganiad polisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r 'Resource Accounting Manual' a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru isod. Defnyddiwyd hwy yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod o bwys mewn perthynas â'r cyfrifon.

### 1.1 *Confensiwn cyfrifo*

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd trwy ailbrisio asedau sefydlog lle bo hynny'n berthnasol, yn unol â'u gwerth i'r Comisiynydd trwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

### 1.2 *Asedau sefydlog diriaethol*

Mae'r Comisiynydd wedi prisio pob ased sefydlog ar gost hanesyddol gan nad yw unrhyw gysoniadau ailbrisio yn berthnasol ym marn y Comisiynydd. Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol yw £1,000. Cafodd nifer fawr o'r un mathau o asedau eu grwpio gyda'i gilydd wrth benderfynu os oeddynt uwchben neu islaw'r trothwy.

### 1.3 *Dibrisiad*

Darperir dibrisiad ar gyfraddau a gyfrifwyd a fyddai'n dileu gwerth asedau sefydlog diriaethol trwy randaliadau cyfartal yn ystod eu hoes ddefnyddiol yn ôl amcangyfrif. Mae eu hoes fel a ganlyn:

- Offer TG — 3 blynedd
- Dodrefn — 5 mlynedd
- Offer Swyddfa — 5 mlynedd
- Gosodion a Ffitiadau — 5 mlynedd

Hawlir dibrisiad blwyddyn gyfan ym mlwyddyn eu caffael.

### 1.4 *Gwariant gweinyddol*

Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu costau rhedeg swyddfa'r Comisiynydd Plant fel y'u diffinnir dan gyfundrefn rheoli costau gweinyddol, ynghyd ag incwm cysylltiedig.

### 1.5 *Gwariant rhaglen*

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw wariant rhaglen.

### 1.6 *Tâl cyfalaf*

Cynhwysir tâl yn y costau gweithredu sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir gan y Comisiynydd. Cyfrifir y tâl ar gyfradd safonol y llywodraeth sef 6 y cant mewn gwir delerau ar yr holl asedau llai ymrwymiadau, ac eithrio arian mewn llaw a ddelir yn Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol Ei Mawrhydi, ond nid oedd unrhyw arian mewn llaw yn bodoli.

### 1.7 *Treth ar Werth*

Nid yw'r Comisiynydd wedi ei gofrestru ar gyfer Treth ar Werth. Cyfrifir gwariant a phryniannau asedau sefydlog gan gynnwys Treth ar Werth, gan na ellir adennill y dreth.

### 1.8 *Pensiynau*

Gweinyddir y cynllun pensiwn a gynigir i bob aelod o staff gan yr Ymddiriedolaeth Bensiynau. Mae'n gynllun cyfrannol gyda chyfraniadau a bennir a chydnabyddir pob ymrwymiad ar ei gyfer yn ystod y cyfnod. Nid oes unrhyw ymrwymiadau i'w hystyried yn y dyfodol ar gyfer y cynllun.

### 1.9 *Prydlesau Gweithredu*

Codir tâl am y rhenti prydlesau gweithredu o'r Datganiad Cost Weithredu mewn symiau cyfartal yn ystod cyfnod y brydles.

### 1.10 *Deilliadau ac offerynnau ariannol*

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grant gan y Cynulliad Cenedlaethol am ei ofynion ariannol, ac felly nid yw'n agored i risgiau diddymiad. Nid oes ganddo unrhyw adneuon sylweddol ychwaith, ac mae'r holl asedau ac ymrwymiadau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfraddau llog na risg arian cyfred.

## 2. Nifer a chostau staff

a) a) Mae costau staff am y cofnod 13 mis yn cynnwys:

| | 2001-2002 £000 |
|---|---|
| Cyflogau | 136 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 14 |
| Costau pensiwn | 4 |
| | 154 |

Mae'r cynllun Ymddiriedolaeth Bensiynau yn gynllun lle pennir y cyfraniadau ond ni all y Comisiynydd nodi faint yw ei gyfran ef o'r asedau a'r ymrwymiadau sylfaenol. Nid oedd prisiad o'r cynllun gan actiwari ar gael. Roedd cyfraniadau arferol gan y cyflogwr o £3,791 a chyfraniadau arferol gan y gweithwyr o £3,791 yn daladwy i'r cynllun yn 2001-2002, sef cyfraniadau ar gyfradd o 5% gan y cyflogwr a 5% gan y gweithwyr o'r tâl pensiynadwy. Yn y prisiad diwethaf o gronfa gyfan yr Ymddiriedolaeth Bensiwn, roedd cyfraniadau i'r cynllun i barhau'n sefydlog ar y lefel gyfredol. Mae'r gost a gydnabyddir yn cynrychioli gwir gostau a gafwyd ar gyfer y cynllun yn ystod y cyfnod gan nad oes unrhyw ymrwymiadau ar gyfer y cynllun yn y dyfodol.

b) Roedd cyfartaledd nifer y bobl cyfwerth llawn-amser a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr) am y cyfnod fel a ganlyn:

| | 2001-2002 |
|---|---|
| Amcan 1 | 3.6 |
| Cyfanswm | 3.6 |

c) c) Roedd cyflogau rheolwyr uchaf y Comisiynydd Plant fel a ganlyn am y cyfnod 13 mis:

| | Oed ran | Graddfa gyflog (a ddiffinnir isod) £000 | Breintiau eraill i'r £100 agosaf |
|---|---|---|---|
| Peter Clarke - Comisiynydd Plant Cymru | 53 | 75-80 | £2000 |
| Maria Battle – Is-Gomisiynydd Plant (Dirprwy) | 45 | 5-10 | - |
| Rhian Davies – Is-Gomisiynydd Plant | 44 | 0-5 | - |
| Sara Reid – Is-Gomisiynydd Plant | 40 | 5-10 | - |

Y Comisiynydd yw'r unig aelod o staff sydd wedi ymuno â'r Cynllun Ymddiriedolaeth Bensiwn. Ni fu'n bosibl derbyn gwybodaeth gan yr ymddiriedolwyr ynglŷn â'i bensiwn cronedig hyd yma.

**3. Costau gweinyddol eraill**

| | 2001-2002 £000 |
|---|---|
| Rhentu dan brydlesau gweithredu: | |
| - cerbydau | 4 |
| - adeiladau | 17 |
| Ystafelloedd eraill a chostau cysylltiedig | 29 |
| TG a thelathrebu | 50 |
| Cynnal cerbydau/swyddfeydd | 8 |
| Cyhoeddusrwydd/Hysbysebu/Cyfieithu | 9 |
| Teithio, cynhaliaeth a chroeso | 14 |
| Penodi | 188 |
| Tâl yr Archwilydd | 9 |
| Gwariant arall | 131 |
| Eitemau anariannol: | |
| - dibrisiant | 86 |
| - cost cyfalaf | 7 |
| | **552** |

Mae gwariant arall yn cynnwys £181 a dalwyd i Barclays Bank plc am log a thaliadau banc ar gyfer y cyfrif cyfredol sydd gan y Comisiynydd.

**4. Fixed assets**

| | Offer TG £000 | Gosodion a Ffitiadau £000 | Dodrefn ac Offer Swyddfa £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar Fawrth 1 2001 | - | - | - | - |
| Ychwanegiadau | 78 | 142 | 158 | 378 |
| Gwerthwyd | - | - | - | - |
| **Ar Fawrth 31 2002** | **78** | **142** | **158** | **378** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar Fawrth 1 2001 | - | - | - | - |
| Talwyd yn y fl. | 26 | 28 | 32 | 86 |
| Gwerthwyd | - | - | - | - |
| **Ar Fawrth 31 2002** | 26 | 28 | 32 | 86 |
| **Gwir werth ar bapur** | | | | |
| **Ar Fawrth 31 2002** | 52 | 114 | 126 | 292 |
| **Ar Fawrth 1 2001** | - | - | - | - |

**5. 5. Symudiadau mewn cyfalaf gweithredol ac eithrio arian**

| | 2001-2002 £000 |
|---|---|
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn dyledwyr | 4 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn credydwyr | (75) |
| | **(71)** |

## 6. Dyledwyr

| | 2002<br>£000 |
|---|---:|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn:** | |
| Rhagdaliadau ac Incwm cronedig | 4 |
| | **4** |

## 7. Arian yn y banc ac mewn llaw

| | 2002<br>£000 |
|---|---:|
| Gweddill ar Fawrth 1 2001 | - |
| Gwir fewnlif/(echlif) arian | 16 |
| **Gweddill ar Fawrth 31 2002** | **16** |

Defnyddir gwasanaethau bancio masnachol Barclays plc. Roedd y daliannau canlynol mewn llaw ar Fawrth 31:

| | 2002<br>£000 |
|---|---:|
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 16 |
| | **16** |

## 8. Credydwyr: symiau sydd i'w talu o fewn un flwyddyn

| | 2002<br>£000 |
|---|---:|
| Credydwyr masnach | 32 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | 13 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 30 |
| | **75** |

## 9. 9. Cysoniad gwir gostau gweithredu â newidiadau yn y gronfa gyffredinol

| | | 2001-2002<br>£000 |
|---|---|---:|
| **Gwir gostau gweithredu am y flwyddyn** | **(Atodlen 2)** | (706) |
| Gwir ariannu o Gynulliad Cenedlaethol Cymru | | 936 |
| Cysoniadau anariannol: | | |
| - cost cyfalaf | | 7 |
| **Gwir gynnydd yn y gronfa gyffredinol** | | **237** |
| Cronfa gyffredinol ar Fawrth 1 2001 | | |
| **Cronfa gyffredinol ar Fawrth 31 2002** | **(Atodlen 3)** | **237** |

**10. 10. Ymrwymiadau dan brydlesau gweithredu**

| | 2002 £000 Tir ac Adeiladau | 2002 £000 Eraill |
|---|---|---|
| Ar Fawrth 31 2002 roedd y Comisiynydd wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf am brydlesau gweithredu yn dod i ben: | | |
| - o fewn un flwyddyn | - | - |
| - rhwng dwy a phum mlynedd | - | 9 |
| - ar ôl pum mlynedd | 52 | - |
| | **52** | **9** |

**11. Ymrwymiadau cyfalaf**

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar Fawrth 31 2002.

**12. Ymrwymiadau at raid**

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau at raid ar Fawrth 31 2002.

**13. Trafodion Partïon Cysylltiedig**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti cysylltiedig. Cafodd y Comisiynydd nifer fechan o drafodion sylweddol yn ystod y cyfnod gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nid yw unrhyw un o'r staff rheoli allweddol wedi cyflawni unrhyw drafodion sylweddol gyda Chomisiynydd Plant Cymru yn ystod y cyfnod.

# ATODIAD UN

## Ymweliadau, cyfarfodydd a chynadleddau

*Mae'r rhestr isod yn cyfeirio at waith a gyflawnwyd yn bersonol gan y Comisiynydd a chynhwysir hi i roi syniad am fath ac ystod y grwpiau a mudiadau y cyfarfu â hwy yn ystod y flwyddyn gyntaf. Nid yw'n cynnwys llawer o gyfarfodydd ag unigolion, cysylltiadau anffurfiol â phobl ifanc, na gwaith a gyflawnwyd gan weddill tîm y staff.*

### PLANT A PHOBL IFANC

Ysgol Uwchradd Aberystwyth

Grŵp Theatr Aberystwyth

Fforwm Pobl Ifanc Y Barri

Y Rhwydwaith Pobl Ifanc Du

Prosiect Gofalwyr Ifanc Blaenau Gwent

Grŵp Chwarae Brycheiniog

Cychwyn Cadarn Brycheiniog

Ysgol Anghenion Arbennig Aberhonddu

Cartrefi Plant Pen-y-Bont ar Ogwr

Fforwm Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr

Fforwm Ieuenctid Caerffili

Ysgol Christchurch

Cychwyn Cadarn Conwy

Caffi Seiber Aberdaugleddau

Grŵp Cyfeirio Pobl Ifanc Anabl

Cartref Mamau a'u Babanod Dinbych

Canolfan Wybodaeth Ieuenctid Doorway

Ysgol Gyfun Glan-y-Môr

InfoNation-Abertawe

Ysgol Uwchradd Llandrindod

Ysgol Gynradd Casnewydd

Fforwm Ieuenctid Abertawe

Cynhadledd Pobl Ifanc Sir Benfro

Torfaen – Dathlu gwobrwyon cyflawniad

Plant Teithwyr, Y Barri

Vision Foundation, Glyn Ebwy

Cymorth i Fenywod yng Nghymru

Wythnos Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn

Gwobrwyon Gweithredu Ieuenctid

### CYRFF Y DEYRNAS UNEDIG A THRAMOR

Cymdeithas Pobl Ifanc ag ME

Bris (ChildLine Swedaidd)

Cafcass

ENOC – Rhwydwaith Ombwdsmyn Ewropeaidd ar gyfer Plant

Ombwdsmon Gwasanaethau Iechyd a Chyhoeddus – Llundain

Cynghrair Howard dros Ddiwygio Penydiol

Cyd Bwyllgor Hawliau Dynol

Ombwdsmon Llywodraeth Leol

Seminar Gogledd Iwerddon ar y Comisiynydd

Swyddfa Ombwdsmon Plant Norwyaidd

Senedd yr Alban – Pwyllgor y Comisiynydd

Swyddfa Ombwdsmon Plant Swedaidd

Sesiwn Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Blant – Efrog Newydd

### MUDIADAU CENEDLAETHOL (CYMRU)

Comisiwn Archwilio

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

BAAF

Barnardos

BASW

Cymdeithas Brydeinig dros Addysg Bore Oes

Pwyllgor Eglwysig Amddiffyn Plant

Cymdeithas Genedlaethol Gofalwyr

Plant yng Nghymru

Clover Care

Comisiwn Hawliau Anabledd

Yr Eisteddfod

Cymdeithas Ffrwythlondeb

Rhwydwaith Maethu

Llywodraethwyr Cymru

Fforwm Gadael Gofal

Fforwm Cenedlaethol Gwasanaethau Cyfreithiol

Cymdeithas Genedlaethol Mudiadau Gofal Plant

Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol

Cymdeithas Genedlaethol Gofal Maeth

Cynulliad Cendlaethol Cymru

Cartrefi Plant Cenedlaethol

NSPCC

Coleg Brenhinol Nyrsio (Cymru)

Coleg Brenhinol Pediatryddion (Cymru)

SCF

SCOVO

Tŷ Hafan

Eisteddfod yr Urdd

Lleisiau o Ofal

Asiantaeth Ieuenctid Cymru

Cydweithrediad Cymreig dros Iechyd a'r Amgylchedd

Cyngor Deillion Cymru

Awdurdod Datblygu Cymru

Fforwm Addysg Cymru

Bwrdd yr Iaith

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymorth i Ferched Cymru

## ASIANTAETHAU LLEOL

Bobath

Gwasanaethau Cymdeithasol Pen-y-Bont ar Ogwr

Awdurdod Iechyd Bro Taf

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Bro Morgannwg

Ymddiriedolaeth Buttle

Prifysgol Caerdydd

Cyngor Sir Gaerfyrddin

Coleg Caerfyrddin

Cyngor Ceredigion

Canolfan Gibbonsdown

Cefnogi Canser Gwent

Fforwm Plant a Theuluoedd Gwynedd

Cychwyn Cartref Sir y Fflint

JIGSO

Cyngor Merthyr Tudful

Llwybrau Newydd

Cyngor Casnewydd

Ymddiriedolaeth Ogwr

Carchar y Parc

Heddlu De Cymru

Carchar Abertawe

Fforwm Rhyngddisgyblaethol Llysoedd Teuluol Abertawe

Prifysgol Abertawe

Cymdeithas Cyrff Llywodraethol Abertawe

Fforwm Nyrsio Plant Wrecsam

## CYNADLEDDAU/LANSIADAU

Wedi Waterhouse

Newid Agweddau

Anghenion Gofal Iechyd Pobl Ifanc

Lansio Siarter Pobl Ifanc Du

'Sdim Curo Plant

Maniffesto Plant

Iechyd Meddwl Plant

Hawliau Plant a Chyfranogiad

Gofal Cymunedol yn Fyw

Hawliau Anabledd

Cyfraith Deuluol

Canolbwyntio ar Faterion Plant yn y Gymru Wledig

Homoffobia

Cynghrair Howard

Gwrando ar Blant

Meddyliwch yn Bositif

'Sut Mae'r Plant?'

Rhowch Stop Arni Nawr - NOTA

# ATODIAD DAU

## COMISIYNYDD PLANT CYMRU

## Archwiliad Clywch

## CYLCH GORCHWYL

1. Archwilio datganiadau gan gyn ddisgyblion John Arwyn Owen ac eraill a sefydlu a ymchwiliwyd i unrhyw faterion a allai fod wedi achosi pryder yn unol â'r ymarfer da a'r arweiniad a oedd ar gael ar y pryd. Clustnodi unrhyw wersi i'w dysgu o'r ffordd yr ymchwiliwyd i unrhyw faterion o'r fath ac ystyried a yw arweiniad, gweithdrefnau a pholisïau cyfredol yn ddigonol yn wyneb yr hyn a allai fod wedi digwydd.
2. Archwilio i ba raddau yr oedd plant ac eraill yr effeithiwyd arnynt yn teimlo eu bod yn cael anogaeth ac yn gallu rhannu eu pryderon gydag oedolion priodol a phwyso a mesur trefniadau cyfredol yn hynny o beth.
3. Ystyried adroddiad Pwyllgor Adolygu Achosion Difrifol Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal Rhondda Cynon Taf.
4. Archwilio ymarfer diogel a'r gweithdrefnau ar gyfer ymwneud â phlant yn y celfyddydau perfformio yn wyneb yr hyn a allai fod wedi digwydd yn yr achos hwn.